continYou
Adeiladu cymunedau dysgu
Building learning communities

# Sut i'w wneud e

## Arweinlyfr am glybiau darllen

extratime
Cefnogi dysgu allan-o-oriau-ysgol
Supporting out-of-school-hours learning

# Beth yw Extra Time?

Mae Extra Time yn disgrifio athroniaeth ContinYou tuag at gefnogi astudio, sef dysgu allan-o-oriau-ysgol (daooy). Ei ddull o weithredu yw:

- ceisio sicrhau fod cefnogaeth astudio o'r safon gorau/gweithgareddau daooy o fewn cyrraedd pob plentyn a pherson ifanc yn y DU
- darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu hwylus sy'n ymestyn, cyfoethogi a hyrwyddo dysgu y tu hwnt i furiau ystafelloedd dosbarth ysgolion prif-ffrwd.

Extra Time yw'r enw hefyd ar amrediad o wasanaethau ac adnoddau sy'n ddatblygiad strategol i gefnogi astudio/gweithgareddau daooy mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chymunedau.

## Cefnogi astudio/daooy

Mae cefnogi astudio/daooy yn disgrifio'r amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu anffurfiol mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn wirfoddol ynddynt allan o oriau arferol diwrnod ysgol. Mae tystiolaeth gynyddol fod cyfranogi yn y gweithgareddau hyn yn arwain at welliannau yn natblygiad hunan-barch pobl ifanc, yn gwella'u hagwedd tuag at ddysgu, eu gwaith, eu hymddygiad yn y dosbarth a'u presenoldeb yn yr ysgol.

Ers 1992, ContinYou (a chyn hynny Education Extra) yw'r prif sefydliad dielw yn y DU sy'n hyrwyddo a datblygu'r cysyniad o gefnogi astudio/daooy. Rydym wedi dynodi tri phrif fath o gefnogi astudio/gweithgareddau daooy:

- **gweithgareddau ymestynnol**, megis clybiau i gefnogi gwaith cartref, astudio ac adolygu gwaith y dosbarth, drwy adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan y plant yn ystod oriau diwrnod ysgol
- **gweithgareddau cyfoethogi**, megis clybiau roced neu glybiau dawns, sy'n ategu ac yn ymestyn yr hyn a ddysgir gan y plant yn ystod eu diwrnod ysgol. Dyma sut y darperir yr 'ychwanegiadau' nad oes efallai gofod iddynt yn y cwricwlwm ffurfiol.
- **gweithgareddau profiad/cymhwyso**, fel clybiau darllen neu glybiau mathemateg, i ddysgu gwirfoddoli neu weithgareddau mentora, helpu disgyblion i gael gwahanol brofiadau cwricwlaidd ac/neu i'w galluogi i ddatblygu sgiliau bywyd.

O fewn gwaith cefnogi astudio/daooy mae cysylltiad clir rhwng dysgu anffurfiol a chyraeddiadau addysgol prif ffrwd. Yr effaith a gaiff y profiad o ddaooy ar gyflawniadau plant sy'n ychwanegu gwerth at weithgareddau traddodiadol all-gwricwlaidd.

## Pam fod cefnogi astudio/ daooy mor bwysig?

Daw datblygu gweithgareddau cefnogi astudio/daooy a llawer o fanteision i ysgolion a chymunedau, yn ogystal ag i ddisgyblion unigol. Bydd y gweithgareddau yn cyfrannu i strategaethau allweddol i gyflawni:

- gwelliant ysgolion, a chodi safonau
- gwell ymddygiad a phresenoldeb
- 'gwasanaeth llawn' addysg estynedig
- meithrin creadigedd a chyfoethogi profiad
- ailfodelu gweithlu
- hwyluso trosglwyddiad o addysg gynradd i addysg uwchradd
- gwell cynhwysiant cymdeithasol
- dysgu personol
- gweithio tuag at adeiladu ysgolion y dyfodol
- cydlynu gwasanaethau plant.

Bydd adnoddau 'Extra Time ContinYou' yn eich cynorthwyo nid yn unig i ddatblygu gweithgareddau cefnogi astudio/daooy ond hefyd i'w hintegreiddio yng nghynllun datblygu'ch ysgol.

## Cyhoeddiadau ContinYou

Gall ContinYou gynnig ystod eang o gyngor, gwybodaeth a chyhoeddiadau gwaith ymchwil. Gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae ContinYou Cymru wedi cynhyrchu'r Pecyn hyfforddiant ac adnoddau dysgu allan-o-oriau-ysgol a chôd ymarfer ar gyfer dysgu allan-o-oriau-ysgol. Mae'r ddau wedi eu croesgyfeirio er mwyn gwneud hi'n bosibl i'w defnyddio gyda'i gilydd i gefnogi datblygiad daooy.

I gael rhestr lawn o'n hadnoddau, cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 020 8709 9900

Ffacs: 020 8709 9933

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 4 |
| Beth ydy clwb darllen? | 5 |
| Pam fod angen clybiau darllen daooy arnom – onid ydyn ni'n gwneud digon yn y dosbarth? | 6 |
| Beth sy'n digwydd mewn clwb darllen? | 7 |
| Sut mae dod o hyd i'r aelodau? | 8 |
| Pwy fydd yn rhedeg eich clwb darllen? | 9 |
| Partneriaethau | 10 |
| Fyddwn ni angen cefnogaeth ein rheolwyr? | 11 |
| Pryd ac ymhle fyddwn ni'n cyfarfod? | 12 |
| Beth yn union fyddwn ni'n ei wneud? | 13 |
| Sut mae cael y llyfrau ac adnoddau fydd eu hangen? | 20 |
| Gweithgareddau | 22 |
| Sut mae dweud wrth bawb am y clwb? | 26 |
| Sut mae cynnal pethau? | 27 |
| Fyddwn ni angen cyllid ac o ble cawn ni'r arian? | 28 |
| Sut fydd y clwb yn cyfrannu tuag at yr agenda ddysgu ehangach? | 30 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 32 |

# Rhagarweiniad

Croeso i *Sut i'w wneud e*, adnodd Extra Time sy'n helpu ysgolion Cymreig i sefydlu rhaglenni darllen allan-o-oriau-ysgol (daooy).

Mae'r llyfryn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, awdurdodau addysg lleol ac eraill sy'n darparu rhaglenni allan-o-oriau-ysgol. Beth bynnag yw eich rôl – pennaeth, athro, llyfrgellydd, swyddog AALl, cynorthwy-ydd dysgu, tiwtor, rhiant, llywodraethwr, neu bartner cymunedol neu wirfoddolwr – byddwch yn dod o hyd i gyngor a chymorth yma i'ch helpu i sefydlu clwb darllen daooy.

Bydd pob adran o'r llyfr yn delio gydag agwedd wahanol y byddwch angen ei ystyried wrth gynllunio gweithgareddau eich clwb darllen, ac yn cynnig atebion i gwestiynnau ymarferol. Cewch hyd i daflenni gweithgaredd, enghreifftiau ac awgrymiadau hefyd.

Hawlfraint © ContinYou 2006

# Beth ydy clwb darllen?

Bu cynnydd aruthrol yn y nifer o glybiau darllen i oedolion a phlant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf yn seiliedig ar yr un egwyddorion:

- Mae'r aelodau yn darllen oherwydd eu bod yn mwynhau darllen.
- Nhw sy'n dewis beth maen nhw eisiau darllen.
- Mae nhw'n siarad â'i gilydd yn rheolaidd am eu darllen.
- Mae nhw'n creu cyfleoedd i gael mwynhad a phleser.

Bellach mae pawb yn gytun fod darllen er mwyn pleser yn allweddol i lwyddiant academaidd a gwell cyfleoedd mewn bywyd. Mae ymchwil wedi dangos fod myfyrwyr oedd yn fwy brwdfrydig dros, ac yn ymroi i ddarllen, yn perfformio'n well mewn profion, ac hefyd fod bod yn ddarllenydd cyson yn fwy o fantais ynddo'i hun na chyfoeth neu statws cymdeithasol (*Reading for change*, OECD, 2002).

Mae clybiau darllen yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau darllen, i ddarllen er mwyn pleser ac i ymwneud â llyfrau a darllenwyr eraill y tu allan i'r dosbarth a'r cwricwlwm ffurfiol.

*'Yr amgylchedd ddarllen orau yw un lle mae disgwyl pleser mewn darllen, lle mae cyffro wrth siarad am lyfrau a phleser mewn gwrando ar rywun yn darllen.'*
Prue Goodwin, yn *Creating a reading culture handbook*, Reading Connects

## Beth all clwb darllen ei gyflawni?

Mae ymchwil wedi dangos fod clybiau darllen yn gweithio, ac yn cyflawni budd positif i'w haelodau.

*'Roedd gwelliant sylweddol yn sgiliau darllen yr aelodau llai galluog yn arbennig – fe wellodd 80% o ddisgyblion Blwyddyn 7 eu hoedrannau darllen o'i gymharu â dim ond 39% o'r disgyblion nad oedd yn aelodau.'*
*Reading clubs report,* Education Extra, 2003

Mae clwb darllen llwyddiannus yn:

- canolbwyntio ar ddarllen er mwyn pleser a mwynhad
- galluogi plant i weld eu hunain fel darllenwyr
- ehangu ystod a gallu darllen plant
- gwellu sgiliau darllen plant
- creu darllenwyr gydol oes ymroddedig a brwd
- rhoi hyder i blant yn eu dewisiadau darllen
- galluogi plant i gymryd risg gyda'u darllen
- dathlu darllen er ei fwyn ei hun
- ysgogi darllenwyr
- helpu i greu diwylliant ddarllen o fewn ysgolion neu sefydliadau eraill
- creu delwedd bositif o ddarllen ac o llyfrgelloedd
- annog dychymyg, meddwl rhydd, adlewyrchu a hunan-fynegiant
- newid yr amgyffred o ddarllen o rywbeth unigol anghymdeithasol i weithgaredd poblogaidd a chymdeithasol i'w fwynhau gydag eraill
- galluogi plant i gymryd rheolaeth dros eu dysgu eu hunain.

Fel gweithgaredd dysgu-allan-o-oriau-ysgol, mae clwb darllen yn gallu **ymestyn** y profiad darllen heibio i ofynion y cwricwlwm, yn gallu **cyfoethogi** bywydau pobl ifanc trwy gyfarfyddiadau gyda chyfoeth ac amrywiaeth y profiadau sydd i'w cael ym myd llyfrau, ac yn gallu **galluogi** darllenwyr ifanc i ddatblygu arferiad oes o ddarllen a mwynhau llyfrau.

# Pam fod angen clybiau darllen daooy arnom – onid ydyn ni'n gwneud digon yn y dosbarth?

Y ffaith nad yw clybiau darllen yn weithgaredd dosbarth dan arweiniad y cwricwlwm sy'n eu gwneud mor effeithiol a gwerthfawr.

Mae clwb darllen yn achub darllen rhag cael ei gysylltu â lythrennedd neu 'waith'. Fel dywed Prue Goodwin, mae'n 'barth di-asesiad' lle mae darllen yn 'welliant bywyd nid dim ond yn sgil bywyd'. (*Creating a reading culture handbook*, Reading Connects)

Mae'r pwyslais ar ddarllen er mwyn pleser – a gwerthfawrogi darllen fel nod ynddo'i hun. Mae'r aelodau yn dewis mynychu ac yn dewis beth i'w ddarllen – mae hyn yn meithrin y cysylltiad rhwng mwynhau dysgu a chyflawni. Bydd darllenwyr yn dysgu'r rhyddid i ddewis beth maent eisiau ei ddarllen, ac fe gant gyfle i rannu eu dewisiadau darllen gydag eraill.

Mae clybiau mewn llyfrgelloedd, sefydliadau gofal plant a lleoliadau cymunedol eraill yn mynd â darllen allan o'r dosbarth. Mae llawer o'r clybiau yn cynnig cyfle i ryngweithio gydag oedolyn sy'n angerddol am ddarllen ond sydd ddim yn athro.

I ddarllenwyr galluog, mae clwb yn cynnig cyfleoedd i:

- archwilio ystod eang o lyfrau ac awduron heriol
- foddhau eu hawch darllen eu hunain
- annog a thanio brwdfrydedd darllenwyr eraill.

I ddarllenwyr cyndyn, mae clwb yn cynnig cyfle i:

- ddod ar draws darllen mewn awyrgylch llai ffurfiol a mwy ymlaciol
- sylweddoli taw er mwyn pleser ac nid cyflawni mae darllen; dewis rhydd yn hytrach na gorffodiaeth
- gymysgu gyda ystod eang o alluoedd ac oedrannau
- dderbyn cefnogaeth oedolion sydd ddim yn dysgu, fel llyfrgellwyr neu wirfoddolwyr.

I ddarllenwyr sy'n cael darllen yn anodd, gall gweithgareddau'r clwb:

- gynnig gwahanol ffyrdd o ymwneud â llyfrau
- feithrin parch at arddull a dewisiadau darllen personol pawb
- fagu brwdfrydedd wrth i aelodau glywed darllenwyr eraill yn siarad am lyfrau
- gynnig cefnogaeth gan gymuned o oedolion a chyfoedion sy'n darllen.

Hawlfraint © ContinYou 2006

# Beth sy'n digwydd mewn clwb darllen?

Mae clybiau a grwpiau darllen yn gwneud darllen yn gymdeithasol. Er fod darllen fel arfer yn weithgaredd preifat, unigol, gall hefyd fod yn bleser cymunedol i'w rannu. Mewn grwpiau darllen o bob math, daw darllenwyr at ei gilydd yn rheolaidd i sgwrsio am eu darllen, i rannu eu profiadau gyda llyfrau, i ddadlau ac i gytuno.

Cyfrinach clwb llwyddiannus yw cael amrywiaeth eang o weithgareddau o fewn fframwaith reolaidd – trafodaethau llyfrau, gwrando ar lyfrau, cwisiau a chystadlaethau, creu arddangosfeydd, cyfarfod awduron ac yn y blaen.

*'Mae'n amlwg fod clybiau darllen sy'n darparu ar gyfer pob math o ddiddordeb yn fwy cynhwysol na chlybiau diddordebau arbennig. Maent yn darparu ar gyfer pob ystod gallu, ar gyfer bechgyn a merched, ac maent yn gallu cynnwys ystod eang o themau sy'n apelio at bob disgybl.'*
*Reading clubs report*, Education Extra, 2003

## Sut fath o glybiau neu grwpiau darllen sy'n bodoli eisoes ar gyfer plant a phobl ifanc?

Mae nifer o ysgolion yn cynnal clybiau darllen, yn aml ar ôl ysgol neu yn y gwyliau, ond hefyd fel rhan o glwb brecwast, yn ystod yr awr ginio neu adeg gwyliau ysgol. Gan amlaf athro sy'n eu rhedeg, ond fe gefnogir nifer gan staff eraill o fewn yr ysgol, disgyblion a myfyrwyr hŷn.

Mae sawl llyfrgell leol yn cynnal clybiau darllen neu grwpiau darllen ar gyfer plant a phobl ifanc – fel arfer ar ôl ysgol neu ar ddydd Sadwrn. Mae eu hamcanion a'u gweithgareddau yn debyg iawn i glybiau mewn ysgolion – i ddod â darllenwyr a llyfrau at ei gilydd ac i annog darllen er mwyn pleser.

Mae rhai awdurdodau yn cynnal grwpiau Orange Chatterbooks. (Mae partneriaeth rhwng Orange a llyfrgelloedd cyhoeddus ar draws Prydain yw grwpiau Orange Chatterbooks, er mwyn creu a chynnal grwpiau darllen i blant 4 i 12 oed.) Llyfrgellwyr sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig sy'n eu harwain, ac mae aelodau yn derbyn pecynnau anrheg Orange. Mae cynlluniau i ddatblygu elfen ddwyieithog i Chatterbooks yng Nghymru. Holwch eich llyfrgellydd plant lleol am ragor o fanylion neu edrychwch ar wefan 'The Reading Agency' yn www.readingagency.org.uk .

Gallai clwb-ar-ôl-ysgol mewn sefydliad gofal plant neu gynllun chwarae gwyliau hefyd redeg clwb darllen fel gweithgaredd gwerthfawr a phleserus i'r plant yn eu gofal. Byddai clwb darllen hefyd yn estyniad naturiol i glwb gwaith cartref ei gynnig.

Nid oes un patrwm ar gyfer clwb llwyddiannus. Mae gan pob un ei nodweddion ei hun. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i benderfynu sut fath o glwb rydych am ei gael, yn cynnig cyngor ar sut i gychwyn clwb, ac yn awgrymu rhai gweithgareddau i'w cynnal.

Yn y llfryn, ac yn enwedig yn yr adran Dyma sut aethom ni ati, cewch hyd i enghreifftiau o glybiau darllen yng Nghymru sy'n rhannu eu profiadau a'u cynghorion.

Lledu trwy'r arweinlyfr mae 'Sut i'w wneud e...' astudiaethau achos o glybiau darllen yng Nghymru, sy'n rhannu eu profiadau a'u hawgrymiadau.

# Sut mae dod o hyd i'r aelodau?

Yr unig ffordd i wybod os oes gan blant ddiddordeb mewn clwb darllen yw i ofyn iddynt. Holwch rieni, teuluoedd a chydweithwyr am eu barn ar eich syniadau cynnar ac os oes ganddynt eu syniadau eu hunain.

Gofynwch i rai o'r plant mwyaf brwd i lunio arolwg byr o'u blwyddyn. Defnyddiwch focs awgrymiadau neu wal graffiti i gasglu syniadau a barn. Beth am fentro gydag arolwg arlein neu testun gyda phlant hŷn?

Bydd eich clwb yn fwy llwyddiannus os bydd y darpar aelodau yn rhan o'r cynllunio. Bydd hyn yn rhoi teimlad o berchnogaeth iddynt, ac fe fydd y clwb yn darparu ar gyfer ystod ehangach o ddiddordebau a disgwyliadau.

Trwy holi o gwmpas, gallwch weld os oes grŵp penodol o bobl ifanc yr hoffech eu hannog yn arbennig i ymuno, neu os oes canlyniadau penodol yr hoffech eu cyflawni.

Trwy ymgynghori â chydweithwyr gallwch sbarduno eu diddordeb hwy mewn helpu i redeg y clwb neu gynnig gweithgareddau penodol o bryd i'w gilydd.

## Ddylen ni dargedu darpar aelodau?

Ydych chi am gynnig y clwb i flwyddyn neu oedran penodol? Mae nifer o ysgolion uwchradd, er enghraifft, yn cynnal clybiau darllen Blwyddyn 7. Os felly, targedwch bawb yn y flwyddyn/oedran hwnnw gyda chyhoeddiadau mewn dosbarthiadau cofrestru a gwasanaethau, a phosteri mewn mannau amlwg. Os oes gennych amser, danfonwch wahoddiadau personol i bawb – gan greu yr argraff ei fod yn fraint i fod yn aelod.

Os ydych yn cynllunio clwb Blwyddyn 7, ystyriwch ymweld ag ysgolion cynradd lleol yn ystod y tymor haf blaenorol, neu gweithiwch gyda'r llyfrgell leol i wahodd plant sy'n cymryd rhan yn y Sialens Ddarllen Haf Genedlaethol. Ym mis Medi, ategwch gyda rhagor o gyhoeddusrwydd a gwahoddiadau. Gallech hefyd gynnig sesiynnau blasu i ddisgyblion Blwyddyn 6. Bydd y clwb, o ganlyniad, yn cynnig cefnogaeth yn ystod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. (Edrychwch ar *O'r Cynradd i'r Uwchradd: Symud ymlaen: dysgu-allan-o-oriau-ysgol a throsglwyddiad*, ContinYou Cymru, 2005).

Gall clybiau aml-oedran fod yn llwyddianus iawn wrth i blant gymysgu gyda ffrindiau newydd y tu allan i'w blwyddyn neu gyfoedion. Mewn ysgolion bach, bydd clybiau yn aml-oedran o reidrwydd, er mae cymysgu CA1 a 2 yn her oherwydd y gwahanol sgiliau darllen. Ceisiwch ddewis darllen llyfrau gan awduron sy'n sgwennu i ystod oedran eang, neu defnyddiwch lyfrau lluniau sy'n addas i oedran hŷn. Cynlluniwch weithgareddau lle mae'r deunydd darllen yn ddewis personol ond mae'r gweithgaredd yn addas beth bynnag sy'n cael ei ddarllen. Mae gan Adran 9 lawer o awgrymiadau am weithgareddau.

Beth am greu cyswllt gyda chlwb daooy cyffredinol mae eich disgyblion yn ei fynychu, a chynnig rhedeg clwb llyfrau gyda nhw unwaith yr wythnos neu bythefnos? Bydd gennych griw parod o aelodau, lleoliad a chymorth oedolion eraill.

Peidiwch â gorfodi neb i fynychu – nid yw'n fater o 'Bydd yn gwneud lles iddynt'. Dylai aelodaeth fod yn wirfoddol ac mae angen i aelodau ddewis i ymuno, yn hytrach na theimlo eu bod angen cymorth ychwanegol. Os oes unigolion y teimlwch fyddai'n mwynhau'r clwb ac yn elwa ohonno, defnyddiwch rym cyfoedion ac awgrymiadau. Gall annog darllenwyr anfoddog i fynychu arwain at ganlyniadau da. Eich erfyn mwyaf grymus fydd clwb sydd eisoes yn lwyddiannus mae pobl eisiau bod yn aelod ohonno. Cynlluniwch rai gweithgareddau i ateb gofynion grŵp penodol, ond rhowch gyfle i bawb gymryd rhan. Rhowch anogaeth ychwanegol i blant y tybiwch fydd ddim yn mynychu.

Ystyriwch anghenion plant gydag anghenion arbennig – eu mynediad corfforol i leoliad y clwb a'i weithgareddau, a'u galluoedd addysgol – bydd rhaid cael gweithgareddau cynhwysol. Bydd darllenwyr ifanc gyda dyslecsia neu anawsterau dysgu yn mwynhau agwedd llai ffurfiol y clwb tuag at ddarllen, a'i bwyslais ar ddarllen er mwyn pleser. Bydd bod yng nghwmni darllenwyr brwd eraill yn hybu eu cymhelliad i ddarllen er gwaethaf eu hanawsterau.



Hawlfraint © ContinYou 2006

# Pwy fydd yn rhedeg eich clwb darllen?

Os allwch, peidiwch â cheisio ei wneud ar eich pen eich hunan. Bydd angen un person – yn aml athro, llyfrgellydd ysgol, neu arweinydd clwb – i fod yn gyd-lynydd, yn goruchwylio'r gweithgareddau, yn sicrhau fod y clwb yn cyflawni ei amcanion, yn trefnu'r staffio a'r lleoliad, yn dod o hyd i arian ac yn datblygu partneriaethau. Yn gynyddol, fodd bynnag, mae oedolion eraill fel cynorthwywyr dosbarth, cynghorwyr dysgu a thiwtoriaid yn cymryd y cyfrifoldebau hyn mewn partneriaeth ag athrawon neu lyfrgellwyr.

Gall ystod o bobl gynnal y gweithgareddau. Bydd yn rhoi amrywiaeth o fewn rhaglen y clwb. Darllenwch yr adran nesaf ar bartneriaethau am syniadau am bwy all helpu.

Mae datblygu diwylliant ddarllen, trwy gyfrwng clwb darllen, yn golygu cynnwys cymaint o bobl â phosibl, felly ceisiwch gael staff sydd ddim yn dysgu, llyfrgellwyr ysgol, rhieni a llywodraethwyr yn rhan o'r peth. Gallwch ofyn iddynt wneud tasg penodol i helpu'r clwb mewn rhyw fodd.

*'Yn hytrach na'r ystafell, yr elfen hanfodol, wrth galon yr amgylchedd ddarllen, yw'r athro, y llyfrgellydd, y cynorthwy-ydd ysgol parod, y disgybl hŷn cefnogol. Y pobl sy'n darparu'r 'gofod', yn llythrennol ac yn haniaethol, lle mae darllenwyr ifanc yn dysgu beth yw bod yn llythrennog.'*
Prue Goodwin, yn *Creating a reading culture handbook*, Reading Connects

Mae gan y rhan fwyaf o glybiau llwyddiannus un neu ddau drefnydd a rhwydwaith ehangach o bartneriaid sy'n cynnig cymorth a mewnbwn arbenigol.

Rhowch gyfrifoldebau arbennig i aelodau i'w hannog i ymwneud â'r clwb – dewis y llyfrau, paratoi gweithgareddau, croesawu ymwelwyr, dod o hyd i aelodau newydd, creu deunyddiau cyhoeddusrwydd. Ceisiwch ddarganfod beth mae'r aelodau'n ei ddisgwyl wrth ymuno â'r clwb. Gwahoddwch yr aelodau newydd i ddewis enw i'r clwb – a pheidiwch â bod ofn ei newid o bryd i'w gilydd os byddai hynny'n denu aelodau newydd.

Sicrhewch bod gennych drefniadau os bydd staff allweddol yn absennol – rhestr o rieni neu wirfoddolwyr efallai fyddai'n barod i gamu mewn ar fyr rybudd. Paratowch ffeil o weithgareddau sydyn gallant eu defnyddio heb unrhyw waith paratoi.

Cofiwch i weithio o fewn polisiau diogelwch, iechyd ac amddiffyn plant eich ysgol neu sefydliad pan rydych yn gwahodd pobl o'r tu allan i helpu gyda'r clwb.

## Cydnabod ymroddiad

Cydnabyddwch a gwerthfawrogwch gyfraniad pawb i'r clwb. Fyddwch chi angen cynnig taliad neu amser rhydd i rai staff, neu gydnabod eu cyfraniad mewn dull arall? Allwch chi gynnig achrediadau datblygiad proffesiynol neu gymhwyster, neu hyd yn oed marciau tŷ i staff a disgyblion hŷn? Trafodwch y syniadau hyn gyda'ch pennaeth neu uwch staff.

## Dyma sut aethom ni ati…

Rhiant brwdfrydig a rota o wirfoddolwyr sy'n rhedeg ein Clwb Stori ar gyfer y Meithrin a CA1. Rydym yn cyfarfod bob mis ar ôl ysgol i wrando ar rhywun yn darllen straeon ar lafar ac i chwarae gemau. Mae'r rhieni yn dod hefo'r plant, ac mae'r Cylch Meithrin lleol hefyd yn ymuno hefo ni. Mae rhai o'n darllenwyr straeon yn dod o'r gymuned leol – cyfeillion yr ysgol – mae un rhiant yn ddyn tân ac fe ddaw o yn ei wisg!

Ysgol fechan ddwyieithog ydyn ni, felly fe gawn straeon yn y ddwy iaith. Does dim rhaid i athrawon wneud dim – mae'r rhieni yn gwneud y cwbl (gan gynnwys y rota lluniaeth). Byddwn yn ymweld â'r llyfrgell leol tri gwaith y flwyddyn am amser stori yno, ac mae'r teuluoedd yn benthyg sachau stori'r ysgol ar ôl sesiwn i'w defnyddio a mwynhau adref. Mae'n gyfle gwych i'r plant rannu straeon gyda'i gilydd a gyda'u rhieni.

### Cyngor

- Yng ngyd-destun llyfrau penodol mae eich aelodau yn eu darllen (er enghraifft rhai sy'n cynnwys pobl fel y diffoddwr tân yn yr esiampl yma), gwahoddwch pobl eraill o'ch cymuned leol sydd â swyddi neu dyletswyddau fydd o ddiddordeb i bobl ifanc.

*Pennaeth ysgol bentref*

# Partneriaethau

Er mwyn cynnal a datblygu eich clwb, bydd angen i chi ffurfio partneriaethau effeithiol. Mae hyn yn wir boed eich clwb o fewn neu oddi allan i ddarpariaeth ysgol. Bydd partneriaethau yn lledu'r cyfleoedd sydd ar gael i'ch aelodau a staff – maent yn gyfle i weithio gydag adnoddau sydd ddim fel arfer ar gael neu i fanteisio ar sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Bydd partneriaethau yn helpu i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned leol ac yn rhoi cyfle i staff ddatblygu sgiliau newydd. Bydd y partneriaid eu hunain yn elwa trwy ddatblygu sgiliau newydd, creu proffeil uwch o fewn yr ysgol ac annog defnydd o'r gwasanaeth cymunedol.

Bydd cynnwys eraill hefyd yn ysgafnhau'r baich ar arweinydd neu gydlynydd y clwb wrth feddwl am a chynnal gweithgareddau.

Gall y partneriaethau gynnwys:

- ysgolion – yn unigol neu mewn clwstwr
- y llyfrgell leol
- y Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion
- athrawon llythrennedd ac athrawon bro
- siopau llyfrau
- rhieni, neiniau a theidiau – oes ganddyn nhw sgiliau neu ddiddordebau arbennig i'w cynnig?
- aelodau eraill y teulu
- plant hŷn neu bobl ifanc
- myfyrwyr
- sefydliadau fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, sgowtiaid a geidiau, gwasanaeth ieuenctid, mentrau laith neu sefydliadau celfyddydol
- busnesau lleol – hyd yn oed os na allant gynnig arian, efallai y gallant gynnig cymorth mewn nwyddau, defnydd am ddim o gyfleusterau neu offer, trafnidiaeth rad, cynghorwyr dysgu, neu ymwelwyr i siarad am lyfrau neu adrodd straeon.

Trwy gynnwys pobl ifanc hŷn ac oedolion, bydd eich aelodau yn gweld modelau rol o amrywiaeth o gefndiroedd. Bydd cefnogaeth i'r clwb gan oedolyn brwdfrydig, sy'n amlwg yn mwynhau darllen, yn gymorth gwerthfawr.

Cadwch mewn cysylltiad rheolaidd gyda'ch partneriaid – trefnwch weithgareddau gyda'ch gilydd, gan sicrhau eich bod yn rhannu'r un amcanion. Adolygwch y cynnydd yn rheolaidd a pheidiwch â bod ofn newid neu hyd yn oed roi terfyn ar bartneriaeth os nad yw'n gweithio.

Gwahoddwch eich partneriaid i ddigwyddiadau a sicrhewch eu bod yn cael cydnabyddiaeth mewn unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu ddeunydd cyhoeddusrwydd.

Pan yn gwahodd partner i fod ynghlwm â'r clwb, gwnewch yn glir iddynt sut fydd eich aelodau yn elwa a sut y bydd y partner yn elwa.

## Cydnabod cefnogaeth

I'r rhan fwyaf o bartneriaid a gwirfoddolwyr, bydd gweld fod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn ddigon o wobr ynddo'i hun ac yn cadw eu cysylltiad yn fyw. Bychan iawn yw cost llythyrau neu negeseuon diolch, gwahoddiadau i ddigwyddiadau a dathliadau, neu gydnabyddiaeth mewn cyhoeddusrwydd yn y wasg, ond cânt eu gwerthfawrogi'n fawr bob tro.

Hawlfraint © ContinYou 2006

# Fyddwn ni angen cefnogaeth ein rheolwyr?

Mae cefnogaeth ac ymrwymiad eich pennaeth, uwch dîm rheoli, llywodraethwyr, pennaeth gwasanaeth neu sefydliad yn bwysig iawn i lwyddiant tymor hir eich clwb. Gofynnwch am gymorth gyda dod o hyd i arian, creiddio'r clwb yng nghynlluniau datblygiad yr ysgol neu sefydliad, a hyrwyddo'r clwb gyda rhieni, teuluoedd, y gymuned ehangach a phartneriaid.

Mae clybiau darllen yn arwain at welliannau mewn sgiliau darllen plant a phobl ifanc, eu hymrwymiad i'r ysgol, eu hunan-barch, eu hymddygiad a'u hoffter o ddysgu a dysgu gydol oes – sicrhewch fod eich rheolwyr yn gwybod hyn.

Os ydych angen tystiolaeth ymchwil uniongyrchol, edrychwch ar ganlyniadau cynllun Clybiau Darllen Blwyddyn 7 Education Extra (ContinYou erbyn hyn) a gyhoeddwyd yn *Reading clubs report* – galwch ei lawrlwytho o www.continyou.org.

Ceisiwch gael uwch staff a gwirfoddolwyr eraill i gymryd rhan mewn rhyw ffordd – gofynnwch iddynt ddod i mewn i sgwrsio am eu profiadau darllen eu hunain; holwch beth maent yn ei ddarllen ar hyn o bryd, a trefnwch gystadleuaeth i weld os gall aelodau'r clwb ddyfalu pwy sy'n darllen beth. Os bydd gennych ymwelwyr yn eich clwb, sicrhewch fod y rheolwyr yn gwybod am yr ymweliad.

Gallwch ddod o hyd i gymorth a chyngor ar bob agwedd o gynnal clwb daooy yn y *Côd ymarfer ar gyfer dysgu allan-o-oriau-ysgol* newydd sydd ar gael gan ContinYou Cymru.

## Dyma sut aethom ni ati…

Roeddwn wedi bod eisiau cynnig clwb darllen i'r darllenwyr brwd oedd yn dod i mewn i'r llyfrgell, felly fe gychwynais ein clwb bore Sadwrn tua tair blynedd yn ôl. Bob mis fyddwn ni'n cyfarfod ac yn canolbwyntio ar awdur neu thema gwahanol bob tro. Mae tua 12 yn dod yn rheolaidd, plant 8–12 oed, ac mae rhai o'n cyn-aelodau yn dod yn ôl i helpu oherwydd eu bod yn ei fwynhau cymaint. Rydym yn sgwrsio am awdur y mis, yn dod o hyd i wybodaeth ar y we neu mewn llyfrau, ac yn trafod y llyfrau unigol mae'r aelodau wedi darllen. Byddwn yn sgwennu'r sylwadau i lawr ac yn eu gosod mewn arddangosfa yn y llyfrgell – ac rydym hyd yn oed wedi gwneud ein fersiynnau ein hunain o lyfrau gyda chymeriadau a digwyddiadau newydd. Bob mis rydym hefyd yn sgwennu adroddiad ar ein cyfarfod ar gyfer gwefan y gwasanaeth llyfrgell. Dwi'n gofyn i'r aelodau beth mae nhw eisiau ei ddarllen dros y misoedd nesaf, ac weithiau dwi'n awgrymu rhywbeth mae aelodau eraill o'r llyfrgell wedi fwynhau. Oherwydd yr ystod oedran dwi'n ceisio dewis awduron neu themau sy'n apleio dros yr ystod eang o alluoedd a lefelau diddordeb. Dros y flwyddyn dwi'n gweld hyder yr aelodau fel darllenwyr yn tyfu – mae nhw llawer fwy parod i drafod ac i awgrymu llyfrau ar gyfer y grwp.

### Cyngor

- Rhowch sylw i weithgareddau eich clwb. Gofynnwch i'ch aelodau bostio eu rhestri darllen, sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer darllenwyr brwd eraill ar wefan eich llyfrgell leol, neu ar wefan yr ysgol.

*Llyfrgellydd plant*

# Pryd ac ymhle fyddwn ni'n cyfarfod?

Penderfynwch pryd rydych am gyfarfod – bydd yn dylanwadu ar beth fyddwch yn ei wneud a phwy fydd yn mynychu.

- **Clwb brecwast cyn ysgol?** Bydd yr amser yn gyfyngedig iawn ond gallwch gynnal gweithgareddau byr ac effeithiol.
- **Amser cinio?** All y plant fwyta eu pecyn bwyd tra'n gwrando ar lyfr yn cael ei ddarllen ar lafar neu tra'n trafod llyfr, cyn symud ymlaen i weithgareddau eraill ar ôl bwyta? All yr aelodau gael caniatâd i gael cinio ysgol cynnar?
- **Ar ôl ysgol?** Bydd llai o wasgedd amser adeg yma ond efallai y bydd cludiant adref yn broblem. Allwch chi drefnu rhywbeth gyda'r cwmni cludiant lleol neu ddefnyddio cludiant cymunedol? Fyddai'r gwasanaeth ieuenctid lleol neu rieni gwirfoddol yn gallu helpu? Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill ar ôl ysgol.
- **Oes modd cynnwys eich clwb darllen o fewn clwb-ar-ôl-ysgol, clwb brecwast neu glwb gwaith cartref sydd eisoes yn bodoli?**
- **Beth am Ddydd Sadwrn?** Efallai y bydd staffio yn fwy o broblem ar benwythnos – ond mae'n werth ystyried partneriaeth gyda gwasanaeth lleol fel y llyfrgell, amgueddfa neu ganolfan chwaraeon.
- **Yn ystod gwyliau ysgol?** Mae sawl clwb darllen gwyliau tymor byr wedi llwyddo, yn arbennig os oes ganddynt nod penodol. Eto ystyriwch bartneriaeth leol – cynllun chwarae gwyliau neu leoliad gofal plant dyddiol er enghraifft.

Gall clybiau tymor byr fod yn llai brawychus i bobl ifanc, yn arbennig darllenwyr anfoddog. Bydd yn gymorth iddynt wybod taw ond am gyfnod byr o ychydig wythnosau mae nhw'n ymroi ac nid am flwyddyn gyfan. Os yw'n llwyddiannus, ail-gychwynnwch am gyfnod byr arall o amser.

Bydd hyd y sesiynnau unigol yn dibynnu ar yr adeg o'r diwrnod a'r nifer neu ystod o weithgareddau rydych yn eu cynllunio. Mae'n well cadw pethau'n fyr a bywiog na cheisio ymestyn pethau a diflasu'r aelodau fydd yn gwrthod dod yn ôl. Holwch farn yr aelodau.

## Ymhle fyddwn ni'n cyfarfod?

- Os byddwch yn cyfarfod o fewn yr ysgol, ceisiwch peidio â defnyddio ystafell ddosbarth arferol. Os bydd rhaid, symud y dodrefn o gwmpas.
- Dylai llyfrgell yr ysgol fod yn ddelfrydol os yw'n ddigon mawr. Caewch y llyfrgell i ddisgyblion eraill yn ystod cyfnod y cyfarfod neu fe fyddant yn tarfu arnoch. Byddant yn ysu i gael gwybod beth sy'n digwydd y tu ôl i'r drysau caeedig – a chael ymuno!
- Mewn tywydd braf, beth am gynnal cyfarfod y tu allan?
- Efallai y bydd eich llyfrgell leol yn hapus i gynnig lle i glwb ar ôl ysgol, ar Ddydd Sadwrn neu yn y gwyliau. Yn yr un modd, efallai y bydd gan amgueddfa, canolfan gelfyddydau neu siop lyfrau leol ddiddordeb.
- Ystyriwch ganolfannau cymunedol neu neuaddau eglwys ac ysgoldai capeli lleol.

I gadw pethau'n ffresh, ystyriwch ddefnyddio lleoliad gwahanol o bryd i'w gilydd. Ewch ar ymweliad neu defnyddiwch gyfleusterau arbennig fel ystafell TGCh neu ystafell ddrama.

Byddwch angen digon o seddau cyfforddus, wedi eu gosod allan yn anffurfiol os yn bosibl. Efallai y byddwch hefyd angen:

- offer megis chwaraewr cryno-ddisgiau
- mynediad i gyfrifiadur i chwilio am wefannau llyfrau ac awduron
- Lle i gadw llyfrau ac adnoddau'r clwb
- hysbysfwrdd amlwg i hyrwyddo cyfarfodydd a gweithgareddau'r clwb.



Hawlfraint © ContinYou 2006

# Beth yn union fyddwn ni'n ei wneud?

Holl fwriad eich clwb darllen yw i gael plant a phobl ifanc yn darllen ac yn siarad am lyfrau. Mae cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd i ymwneud â llyfrau a darllenwyr eraill – a chynnwys yr aelodau yn y cynllunio – yn allweddol i'ch llwyddiant.

Bydd y rhan fwyaf o'r darllen ei hun yn digwydd rhwng sesiynnau'r clwb – ond weithiau efallai yr hoffech gynnig ychydig o amser i bawb eistedd a darllen. Bydd llawer o'r darllenwyr yn mwynhau'r cyfle i ymlacio a mwynhau yn ystod neu ar ôl diwrnod ysgol prysur. Bydd yr amser ar gyfer darllen yn gyfyngedig iawn i ddarllenwyr hŷn sydd ag oriau o waith cwrs neu waith cartref i'w gwblhau.

I wneud y gorau o'r agwedd gymdeithasol o glwb darllen, fodd bynnag, bydd angen i chi gynnig rhai gweithgareddau wedi eu trefnu. Bydd rhai ar gyfer y grŵp cyfan i'w gwneud gyda'i gilydd, eraill ar gyfer grwpiau bach neu barau, ac eraill ar gyfer unigolion.

## Dewis ac amrywiaeth

- Cynigiwch ddewis – mewn beth i'w ddarllen a beth i'w wneud. Dyma sy'n gwneud y clwb yn wahanol i'r dosbarth.
- Gadewch i'r aelodau benderfynu beth i'w wneud – efallai dros dymor, nifer o wythnosau neu gyfnod gwyliau – fel bod pawb yn cael cyfle i wneud gweithgaredd mae nhw wedi ei awgrymu.
- Trefnwch amrywiaeth dda o weithgareddau i gynnal diddordeb a mwynhad pawb.
- Cynlluniwch eich rhaglen fel ei bod yn ddigon hyblyg i alluogi aelodau newydd i ymuno ar unrhyw adeg ac fel y gallant ddal i fyny gyda beth sy'n digwydd.
- Ystyriwch a fydd pawb yn cymryd rhan ym mhob gweithgaredd neu a fydd angen i chi wahaniaethu ychydig? Ceisiwch awgrymu gweithgareddau ymestynnol ar gyfer yr aelodau mwy galluog. Serch hynny, mae'n bwysig i geisio sicrhau nad oes neb yn teimlo na allant gymryd rhan mewn gweithgaredd.
- Nid oes angen dyfeisio gweithgaredd newydd bob tro. Gofynnwch am adborth gan yr aelodau ac ail-adroddwch weithgareddau poblogaidd.
- Ystyriwch gyflwyno sesiynnau ar wahan i fechgyn a merched.
- Byddwch yn drefnus, o flaen llaw, gyda llyfrau ac unrhyw offer neu gymorth sydd ei angen.

## Cychwyn arni

Un ffordd dda o gychwyn y cyfarfod cyntaf neu i gynnwys aelodau newydd yw i gael sgwrs gyffredinol am sut, pam a lle rydyn ni'n darllen. Mae'n cael pawb i siarad am ddarllen ac yn cynorthwyo darllenwyr i ystyried eu profiadau darllen eu hunain.

- Defnyddiwch y cardiau 'annwyl ddarllenydd' yn y pecyn hwn.
- Gofynnwch i bob aelod gymryd cerdyn a holi'r cwestiwn sydd arno i'r person wrth eu hochr.
- Fe allech hefyd holi'r cwestiwn i'r grŵp cyfan a chael trafodaeth ehangach.
- Gofynnwch i bawb fod mor onest ag y medrent, ac i beidio teimlo'n swil na'n wirion wrth ateb – cadarnhewch ethos y clwb fod pawb yn ddarllenwyr a bod darllen pawb yn werthfawr.

## Mynd rhwng y cloriau

### Sgwrsio am lyfrau

Ceisiwch gael pawb yn sgwrsio am y llyfrau maent wrthi'n eu darllen neu newydd eu gorffen. Dyma un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o annog darllen er mwyn pleser – anogaeth lafar o un darllenydd at un arall yw'r dull marchnata mwyaf effeithiol ar gyfer llyfrau. Efallai eich bod i gyd yn darllen gwahanol lyfrau, neu'n canolbwyntio ar un llyfr neu un awdur.

### Arwain trafodaeth am lyfrau

- Defnyddiwch y cwestiynnau cyffredinol yn Sgwrsio Llyfrau i wthio'r cwch i'r dŵr neu i ddod â thrafodaeth yn ôl os byddwch dilyn sgwarnog.
- Ceisiwch ofyn cwestiynnau agored neu taflwch ddatganiad i mewn fydd yn sicr o ysgogi dadl.
- Bydd yr amser y byddwch yn ei dreulio yn trafod yn dibynnu ar oedran y darllenwyr ac ar y llyfr dan sylw. Mae rhai llyfrau ardderchog yn wych i'w darllen ond yn anodd iawn i'w trafod.

- Mae'n bosibl y cewch gwell drafodaeth gyda llyfr mae rhai o'r darllenwyr wedi ei gasau.
- Os ydi pawb wedi darllen llyfrau gwahanol, gofynnwch i aelodau bledio achos eu 'llyfrau hwy' ac i geisio eu 'gwerthu' i'r grŵp.

**Awdur y mis**

Canolbwyntiwch ar un awdur dros nifer o gyfarfodydd i roi cyfle i aelodau ddarllen sawl llyfr. Gofynnwch i'r aelodau chwilio am wybodaeth am fywyd yr awdur mewn llyfrau neu wefannau. Ysgrifennwch at neu e-bostiwch yr awdur gyda ymateb i'r llyfrau (peidiwch â disgwyl ateb – ond mae sawl awdur yn ymateb). Edrychwch yn yr adran Cysylltiadau defnyddiol am fanylion cyswllt.

**Y gadair boeth**

Dewiswch gymeriad o lyfr sy'n gyfarwydd i bawb. Enwebwch un aelod i fabwysiadu persona'r cymeriad ac anogwch yr aelodau eraill i holi cwestiynnau am ddigwyddiadau yn y llyfr neu sut roedd y cymeriad wedi ymddwyn. Mae'n ffordd wych o annog darllenwyr i ymwneud â chymeriad neu i edrych ar wahanol safbwyntiau mewn llyfr.

**Cyfarfod y llyfrau**

Dyma un ffordd o geisio penderfynu pa lyfrau i'w darllen fel grŵp ac o annog darllenwyr i gymryd risg gyda llyfrau. Casglwch ynghyd tua ugain llyfr ar draws yr ystod cyfan. Ceisiwch gynnwys llyfrau sy'n anghyfarwydd i'ch aelodau, a llyfrau gyda chloriau anarferol. Gosodwch y llyfrau allan ger bron yr aelodau a sgwrsiwch fel grŵp am y cloriau a'r broliannau. Trafodwch pa rai sy'n apelio iddynt a pham. Pa rai sydd ddim yn apelio a pham? Pwy mae'r cyhoeddwyr yn ceisio eu denu i ddarllen y llyfr?

**Dewis sydyn**

Gyda hwn byddwch yn sgwrsio am sut mae pobl yn dewis llyfrau ac am ragfarnau am lyfrau. Gyrrwch bawb at y silffoedd i ddewis tri llyfr: un mae nhw awydd ei ddarllen eu hunain, yn fyddai'n her iddynt, ac un na fyddent fel arfer yn eu cyffwrdd tros eu crogi. Rhaid iddynt ddewis yn gyflym – mewn ychydig o funudau. Dewch yn ôl at eich gilydd a sgwrsiwch am beth mae pawb wedi dewis a pham.

**Pytiau blasus**

Casglwch at ei gilydd tua deg llyfr amrywiol. Rhowch dau ddarn o bapur yr un i bob aelod. Gofynnwch iddynt dynnu llun cadarnhaol ar un (tic, wyneb hapus, neu bawd i fyny) ac un negyddol ar y llall (croes, wyneb trist, neu bawd i lawr). Darllenwch chi (neu wirfoddolwr arall) y deg llinell cyntaf o un o'r llyfrau a'r deg llinell gyntaf o dudalen 40. Mae'r grŵp wedyn yn pleidleisio trwy ddefnyddio'r cardiau pleidleisio: ydi'r llyfr yn enillydd ta peidio? Cyfrwch y pleidleisiau i weld pa lyfrau oedd fwyaf poblogaidd.

**Llyfrnodi**

Fe all ddarllenwyr hŷn ddefnyddio llyfrnodi i'w helpu i ganolbwyntio ar eu profiad darllen ac i ysgogi sylwadau mewn trafodaeth. Mae'n gweithio'n dda pan mae sawl person yn darllen yr un llyfr. Llungopïwch y Llyfrnodau yn y pecyn hwn a thorrwch nhw yn 4 llyfrnod fel y dangosir. Rhowch set i bob darllenydd. Wrth i chi ddarllen y llyfr, rhowch y llyfrnodau yn y mannau priodol ac ysgrifennwch ychydig o sylwadau arnynt. Gadewch nhw yn eu lleoedd yn y llyfr. Dewch â'r llyfr gyda'i lyfrnodau i'r drafodaeth grŵp. Cymharwch ble mae pawb wedi gosod eu llyfrnodau a'r sylwadau a nodwyd gan bawb.

**Dewis llyfrau**

Sgwrsiwch gyda'ch llyfrgellydd plant lleol neu'ch llyfrgellydd ysgol i weld os gall yr aelodau gynorthwyo i ddewis stoc ar gyfer y llyfrgell. Fe allai'r llyfrgellydd ddod â chasgliad o lyfrau ar brawf i mewn a sgwrsio am sut mae llyfrau'n cael eu dewis i'r stoc. Gallai'r aelodau wedyn fynd trwy'r casgliad a thrafod y gwahanol lyfrau. Gosodwch uchafswm i'w 'wario' – bydd rhaid i'r aelodau wneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau ystod da o stoc. Dylid wedyn prynu eu hargymhellion ar gyfer y llyfrgell. Beth am osod labeli arbennig yn tu mewn i'r llyfrau i ddweud eu bod wedi cael eu dewis gan aelodau'r clwb? Byddai'n rhoi teimlad o berchnogaeth o stoc y llyfrgell i'r darllenwyr ifanc ac fe fyddai'n erfyn pwerus i ddenu darllenwyr eraill. Mae'n bosibl y byddai gan y wasg leol ddiddordeb mewn rhoi sylw i'r math yma o weithgaredd.

**Sgwennu am lyfrau**

O fewn clwb darllen, bwriad ysgrifennu am lyfrau yw i gael pobl eraill i'w darllen, nid i fesur eu gwerth llenyddol. Byddwch yn ofalus pan ofynnwch i aelodau sgwennu am y llyfrau maent wedi darllen – gwyliwch rhag yr adolygiad marwol!


Hawlfraint © ContinYou 2006

*‘Cafwyd y llwyddiant mwyaf mewn sawl [clwb] pan sylweddolodd yr aelodau y gallant fwynhau llyfrau, a chymryd pleser ynddynt, heb orfod wynebu’r dasg o gyfiawnhau eu dewisiadau.’*

(*Reading clubs report,* Education Extra, 2003)

Dangosodd yr ymchwil hwn taw sgwennu adolygiadau llyfrau oedd un o’r gweithgareddau nad oedd yn llwyddo.

## Sylwadau darllenwyr

Yn hytrach nag adolygiadau, helpwch eich aelodau i gofnodi sylwadau darllenwyr – eu rhai nhw eu hunain neu rhai pobl eraill. Datganiadau byr, gonest am lyfr a sut mae’r darllenydd wedi ymateb iddo yw’r sylwadau. Maent yn hawdd i’w defnyddio mewn arddangosfeydd, mewn cylchlythyrau neu ar wefannau, ac maent yn fwy hygyrch i sgwennwyr llai rhugl.

Gofynnwch i’ch aelodau ddychmyg eu bod yn dweud wrth ffrindiau da am y llyfrau maent newydd eu darllen. Does dim angen crynhoi’r plot ac nid oes unrhyw wahaniaeth os ydynt wedi mwynhau neu gasau’r llyfrau – nid oes angen iddynt fod ofn dweud os nad ydynt wedi hoffi’r llyfrau.

Yn aml, bydd tri brawddeg yn ddigon: un i ddweud rhywbeth am brif thema neu leoliad y llyfr; un am brofiad y darllenydd wrth ei ddarllen; ac un i roi cyngor i’r darllenydd nesaf. Does dim angen gwneud sylw ar safon y llyfr – tydi ‘Roedd o’n wych/ardderchog/cyffrous/diflas’ ddim yn dweud llawer wrthych!

*‘Hanner yn y byd hwn, hanner mewn gwlad ffantasi, mae’n llawn o greaduriaid od a digwyddiadau anhygoel. Dyma’r llyfr hiraf i mi ei ddarllen a’i fwynhau erioed. Mae’r dechrau braidd yn ddiflas ond cariwch mlaen – mae’r darn ar dudalen 43 yn wych!’*

*‘Mae o wedi ei osod mewn ysgol eithaf tebyg i hon, ond gyda athro chwaraeon mwy gwallgof fyth. Dywedodd fy mrawd ei fod yn casau’r llyfr yma felly roedd rhaid i mi ei ddarllen. Mae’r clawr braidd yn wirion – peidiwch â chymryd sylw ohonno ac ewch am y stori.’*

Crewch dempledi bychan gweigion (maint cerdyn post) i gyfyngu ar faint gallwch sgwennu. Gwnech dempledi i gydfynd â thema’r llyfrau rydych yn darllen neu â’r arddangosfa terfynol. Rhowch un y tu mewn i bob llyfr fel bod y darllenwyr yn cofnodi eu meddyliau wrth ddarllen neu yn syth ar ôl gorffen.

Peidiwch â gorfodi neb i sgwennu sylwadau. Bydd un neu ddau gan bob aelod bob tymor dal yn rhoi casgliad da i chi. Cofnodwch sylwadau gwahanol ddarllenwyr yn ystod trafodaeth gyffredinol ac yna teipiwch nhw. Defnyddiwch y sylwadau mewn arddangosfeydd i ddangos bod parch at farn pob unigolyn – a’i bod hi’n dderbyniol i beidio hoffi llyfr.

## Dod â byd eang llyfrau yn nes

**Ymweliadau awduron a chysylltu ag awduron**

Mae cyfarfod a siarad ag awdur sydd wedi ei gyhoeddi yn brofiad cofiadwy iawn i ddarllenwyr ifanc. Byddai’n uchafbwynt i flwyddyn eich clwb. Yn ogystal â chyfarfod y clwb, efallai yr hoffech ofyn i’r awdur siarad â dosbarthiadau eraill neu gynnal gweithdy ar gyfer grŵp o blant.

Bydd gan eich llyfrgellydd plant lleol neu’r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion gysylltiadau gyda nifer o awduron – holwch nhw am bwy mae nhw’n awgrymu ac os gallant roi cyfeiriad ebost neu rif ffôn i chi. Mae rhai awduron yn rhoi manylion cyswllt ar eu gwefan, ac mae gwefan Academi (www.academi.org) yn rhestru llawer o awduron o Gymru. Hefyd mae asiantaethau fel Speaking of Books sy’n trefnu ymweliadau awduron i ysgolion (Ffôn: 020 8692 4704).

Mae awduron yn bobl proffesiynol a dylent gael eu talu am weithio yn eich clwb. Disgwyliwch orfod talu unrhywbeth rhwng £150 a £350 am ddiwrnod cyfan. Mae cefnogaeth ariannol ar gael o gynllun Awduron ar Daith yr Academi (edrychwch yn yr adran Cysylltiadau defnyddiol) i helpu gyda thalu ffî a chostau’r awdur.

Efallai bod eich gwasanaeth llyfrgell eisoes yn trefnu ymweliadau awdur i’ch ardal – holwch os byddai awdur yn barod i ymweld â’r clwb am ryw awr. Bydd y costau llawer is ac fe fyddai llai o waith trefnu i chi.

Cyngor ar groesawu awduron i’ch clwb:

- Gwnewch y mwyaf o’r diwrnod ond trafodwch yn ofalus gyda’r awdur faint mae nhw’n barod i’w wneud.

- Cynigiwch drefnu llety dros nos os bydd angen.
- Sicrhewch fod eich pennaeth/rheolwr yn gwybod am y trefniadau, ac edrychwch ar ôl eich ymwelydd yn dda.
- Sicrhewch fod y dderbynfa yn eu disgwyl, neu bod rhywun yn eu casglu o'r orsaf ac yn dod â nhw i'ch lleoliad.
- Hebryngwch eich awdur drwy gydol y dydd (onibai eu bod yn gofyn am amser tawel ar eu pen eu hunain).
- Peidiwch byth â disgwyl i awdur oruchwylio grŵp o blant ar eu pen eu hunain. Nid athrawon cyflenwol ydyn nhw, ac fe fyddai'n torri eich polisi gwarchod plant.
- Sicrhewch fod ei gwestai yn cael paned a chinio.
- Ceisiwch gael rhai o lyfrau'r awdur i werthu ar y diwrnod (ar sail gwerthu neu ddychwelyd trwy siop lyfrau leol neu'n uniongyrchol o'r cyhoeddwyr). Holwch os yw'r awdur yn hapus i arwyddo llyfrau. Cofiwch ddweud wrth yr aelodau i ddod ag arian hefo nhw.
- Anogwch y plant i ddarllen cymaint o lyfrau'r awdur â phosibl cyn yr ymweliad. Sgwrsiwch am y llyfrau gyda nhw ac edrychwch ar wefan yr awdur.
- Peidiwch ag anghofio cael yr aelodau i sgwennu neu ebostio i ddiolch am yr ymweliad. Mae awduron wrth eu bodd yn derbyn llythyrau gan eu darllenwyr ifanc.

**Gefeillio gyda chlybiau eraill**

Holwch eich athrawon llythrennedd sirol neu'r gwasanaeth llyfrgell os oes grwpiau darllen eraill yn eich ardal. Ystyriwch efeillio a chynnal cyfarfod ar y cyd mewn lleoliad cymunedol, neu ymwelwch â lleoliadau eich gilydd. Cadwch mewn cysylltiad trwy ebost neu wefan. Rhannwch sylwadau darllenwyr neu heriwch eich gilydd mewn cwisiau. Holwch pa weithgareddau sy'n boblogaidd yn eu clybiau hwy a defnyddiwch nhw eich hunain.

**Cysgodi**

Mae 'na ddwsinau o wahanol wobrau i lyfrau plant – ac maent yn un ffordd wych o gadw i fyny gyda'r llyfrau gorau bob blwyddyn. Mae'r cynllun cysgodi mwyaf llwyddiannus yn dilyn Medal Carnegie (am ffuglen Saesneg) a Gwobr Kate Greenaway (am ddarlunio), a wobrwyir gan y Chartered Institute of Library and Information Professionals (CILIP), sef corff proffesiynol llyfrgellwyr. Dewisir y rhestr fer a'r enillwyr gan lyfrgellwyr plant, ond mae pobl ifanc hefyd yn dewis eu henillydd answyddogol trwy bleidleisio ar wefan Carnegie Greenaway. Mae'r wefan yn llawn o syniadau am weithgareddau ac fe all darllenwyr ifanc bostio adolygiadau a sylwadau am y llyfrau ar y rhestr fer. Yn gyffredinol mae'r ffuglen ar restri Carnegie yn fwy addas i lefel uwchradd. Fe all ystod oedran ehangach fwynhau'r llyfrau lluniau ar restr Greenaway – gall darllenwyr hŷn fwynhau'r cyfle i ddarllen llyfrau lluniau hefyd ac fe allwch gael trafodaethau bywiog amdanynt. Beth am gyfarfod â chlwb neu ddosbarth o blant iau i edrych ar y llyfrau?

Gallwch drefnu eich cynllun cysgodi eich hun o unrhyw wobr, wrth gwrs – fel y Whitbread, Guardian, Nestlé Smarties, Torchlight, Gwobr Llyfrau i'r Arddegau y Book Trust. Gwobrau Tir na n'Og yw gwobrau Cymru ei hun ar gyfer y llyfrau plant gorau o Gymru – yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fe'u trefnir gan Gyngor Llyfrau Cymru. Holwch eich llyfrgellydd plant os oes unrhyw wobrau lleol i chi ymwneud â nhw.

Mae gan y rhan fwyaf o'r gwobrau wefan – rhestrir nifer yn www.literacytrust.org.uk/Database/awards.html. Chwiliwch am y rhestr fer, archebwch y llyfrau, rhowch nhw i'r darllenwyr ac yna cynhaliwch drafodaethau a gweithgareddau arnynt. Trefnwch sesiwn feirniadu terfynol a phleidleisiwch dros eich enillydd. Pan gyhoeddir y wobr 'swyddogol', cymharwch gyda'ch canlyniadau chi – wnaeth eich aelodau chi ddewis yr un llyfrau?

**Cystadlaethau a chwisiau llyfrau lleol a chenedlaethol**

Mae sawl cwis neu gystadleuaeth llyfrau ar gyfer ysgolion yng Nghyrmu – mae'r ffurf yn amrywio ond maent i gyd yn ymdrechu i gael plant a phobl ifanc i ddarllen llyfrau da. Holwch eich llyfrgellydd plant neu Wasanaeth Llyfrgell i Ysgolion am beth sy'n digwydd yn lleol ac os caiff eich clwb gymryd rhan. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cynnal cystadleuaeth lyfrau Cymraeg a Saesneg bob blwyddyn.

Gall gymryd rhan mewn cystadleuaeth helpu i ganolbwyntio gweithgareddau'r clwb. Sicrhewch fod pob aelod yn rhan o'r paratoi hyd yn oed os taw ond llond llaw fydd yn y tîm terfynol. Defnyddiwch restri llyfrau cwisiau fel ffordd o ddewis llyfrau da ar gyfer y clwb neu lyfrgell yr ysgol – bydd y trefnwyr wedi dewis yn ofalus.


Hawlfraint © ContinYou 2006

**Ymweliadau gan westeion i sgwrsio am eu darllen**

Gwahoddwch aelod eraill o staff, plant hŷn, rhieni, llywodraethwyr, llyfrgellwyr neu ffigyrau cymunedol i ymweld â'r clwb i siarad am eu darllen hwy a'r llyfrau maent yn fwynhau. Gallant ddarllen ar lafar neu ddod â llyfrau roedden nhw'n eu darllen pan yn ifanc. Efallai y byddai disgyblion hŷn o ysgolion uwchradd yn gallu defnyddio ymweliadau o'r fath ar gyfer credyd gwasanaeth cymunedol. Byddent yn fodelau rôl effeithiol iawn ac yn rhoi negeseuon positif am ddarllen fel gweithgaredd cŵl i arddegwyr.

**Wythnos Llyfrau Plant**

Mae'r wythnos lawn gyntaf ym mis Hydref yn Wythnos Llyfrau Plant ym Mhrydain ac mae llawer o lyfrgelloedd ag ysgolion yn dathlu'r wythnos trwy drefnu gweithgareddau a digwyddiadau. Holwch os allwch chi fynd i gyfarfod ag awdur yn eich llyfrgell leol, neu gwahoddwch awdur i mewn i'r ysgol. Allai'r clwb gymryd yr awenau a chynnal parti, redeg cystadlaethau, a chynnal gwasanaethau arbennig yr wythnos honno?

**Sialens Ddarllen Haf**

Mae'r Sialens Ddarllen Haf cenedlaethol mewn llyfrgelloedd lleol ar draws Prydain yn cael effaith bositif iawn ar sgiliau darllen ac ysgogiad plant. Mae'n pwysleisio darllen er mwyn pleser ac yn pontio'r gwyliau haf hir pan mae llawer o blant yn peidio darllen. Mae'r Sialens yn rhad ac am ddim, ac mae'n annog plant i ymweld â'u llyfrgell leol yn rheolaidd dros yr haf. Fe wobrwyir y plant gyda thystysgrifau a medalau i gydnabod eu hymdrech a'u hymroddiad. Gall y plant ddarllen unrhyw lyfrau llyfrgell o'u dewis, ar unrhyw lefel, yn Gymraeg a Saesneg. Mae gwrando ar lyfrau llafar neu ar rywun yn darllen stori ar lafar yn cyfrif. Mae llawer o lyfrgellwyr yn ymweld â'u hysgolion a lleoliadau gofal plant lleol yn ystod tymor yr haf i hyrwyddo'r cynllun, ac eto yn yr hydref i gyflwyno'r gwobrau. Maent yn gwerthfawrogi cymorth ysgolion i annog y plant i gymryd rhan, ac yn arbennig wrth bwysleisio budd y cynllun i rieni. Mae sawl ysgol yn cynnig pwyntiau neu wobrau eu hunain i blant sy'n cymryd rhan – mae'r anogaeth ychwanegol yn aml yn allweddol i gael rhai plant i gymryd rhan.

**Ymweliadau**

Beth am fynd i weld ffilm o lyfr, neu ar drip i'r theatr i weld llyfr ar y llwyfan? Efallai bod gennych awdur yn byw'n lleol sy'n ysgrifennu am eich ardal, neu lyfr sydd wedi ei leoli yn eich ardal – ewch ar ymweliad i weld os allwch weld nodweddion yn y tirlun neu ymsugno awyrgylch y lle.

**Readathon**

Cymerwch ran yn y sialens codi arian cenedlaethol, y Readathon, sy'n codi arian ar gyfer achosion da, tra'n mwynhau un o'ch hoff ddiddordebau! Ewch i www.readathon.org am fanylion.

## Gemau a gweithgareddau

**Cwisiau**

Edrychwch ar wefannau awduron a llyfrau am gwisiau a chystadlaethau yn seiliedig ar lyfrau. Gofynnwch i'r aelodau greu cwisiau ar gyfer y clwb – defnyddiwch wybodaeth pawb o'u hoff lyfrau ac awduron. Cadwch gopïau o'r holl gwestiynnau ac atebion – byddant yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

**Rafflau llyfrau**

Mae rhain yn boblogaidd ac yn ffordd arall o gael rhagor o lyfrau i mewn i ddwylo plant. Prynwch lyfrau mewn sêl, gofynwch am roddion o lyfrau mewn cyflwr ardderchog neu gofynnwch i gyhoeddwyr am gopìau prawf (efallai mewn cyfnewid am adborth gan ddarllenwyr?). Rhowch docyn raffl am ddim i bawb sy'n mynychu sesiwn – bydd un tocyn lwcus yn ennill llyfr i'w gadw. Trefnwch raffl fawr ar gyfer Diwrnod Llyfr y Byd neu'r Nadolig a gwahoddwch ymwelydd i mewn i gyflwyno'r gwobrau. Gofynnwch i'r aelodau gynllunio labeli arbennig i'w gludo tu mewn i'r llyfrau.

**Cyfnewid llyfrau**

Beth am gael bwrdd neu focs i gyfnewid llyfrau nad yw'r aelodau eu heisio mwyach?

**Edrych yn ôl dros y flwyddyn**

Ar ddiwedd y flwyddyn, trefnwch sesiwn i edrych yn ôl dros yr holl lyfrau rydych wedi eu darllen. Dyfeisiwch wobrau unigryw'r clwb – penderfynwch ar gategorïau, gofynnwch am enwebiadau, yna rhowch gyfle i bawb bleidleisio. Ceisiwch ddod o hyd i Syrpreis y Flwyddyn, Fflop y Flwyddyn, y Llyfr Darllenwyd Fwyaf, y Clawr Gorau, a Llyfr y Flwyddyn. Gosodwch arddangosfa i ddangos y canlyniadau.

### Cylchgronnau

Defnyddiwch gylchgronnau i gadw'n gyfredol gyda byd llyfrau plant. Maent yn aml yn cynnwys syniadau am weithgareddau, cyfweliadau gydag awduron, digonedd o adolygiadau a newyddion am wobrau a mentrau newydd. Anelir *Books for Keeps* a *Carousel* at oedolion, tra bo *Bawd*, *TbK*, *Teen Titles* a *BOOX* ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Gwerthu llyfrau

Mae trefnwyr rhai clybiau darllen hefyd yn rhedeg clybiau gwerthu llyfrau gan ddefnyddio un o'r cynlluniau masnachol fel Sbondonics y Cyngor Llyfrau, neu'r rhai a gynigir gan Scholastic neu'r Book People. Mae nhw'n rhoi cyfle i blant brynu a pherchnogi llyfrau, ac mae'n fodd i godi arian neu ddarparu llyfrau am ddim i'r clwb.

### Gwefannau defnyddiol

Mae cannoedd o wefannau yn ymwneud â llyfrau i blant a phobl ifanc (edrychwch ar yr adran Cysylltiadau defnyddiol). Defnyddiwch gyfrifiaduron llyfrgell yr ysgol neu'r ystafell TGCh, neu gyfrifiaduron y llyfrgell leol. Edrychwch ar wefannau awduron a chyhoeddwyr. Cymrwch ran mewn fforymau a sgyrsiau arlein, cynlluniau cysgodi, neu gwisiau. Defnyddiwch rym technoleg i hyrwyddo llyfrau a darllen.

### Gwrando ar lyfrau llafar

Os yw'r aelodau yn dod â phecyn bwyd i'r clwb, beth am wrando ar grynoddisg o lyfr llafar a gwrando tra'n bwyta? Os yw defnyddio print yn anodd i rai aelodau, sicrhewch fod fersiynnau llafar ar gael er mwyn eu cynnwys mewn trafodaethau a gweithgareddau. Mae llyfrau llafar testun llawn yn well na rhai wedi eu talfyrru – bydd rhai darllenwyr yn mwynhau dilyn y testun printiedig wrth iddynt wrando hefyd.

### Darllen ar lafar

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn mwynhau gwrando ar rywun yn darllen ar lafar, gan roi blas ar lyfr neu ddarllen stori fer neu lyfr lluniau cyfan. Beth am ddarllen barddoniaeth neu ddramau, gan gymryd cymeriad yr un? Gwahoddwch ymwelwyr i mewn i ddarllen ar lafar o'u hoff lyfrau ac i siarad am eu dewisiadau.

### Mud-chwarae neu ddarlunio llyfrau

Mae hwn yn boblogaidd a does dim angen paratoi llawer. Gofynnwch i bawb ysgrifennu teitl llyfr neu enw cymeriad ar ddarn bach o bapur, rhowch nhw mewn bag neu focs, a thynnwch un allan yn eich tro. Unai actiwch allan y geiriau (trwy fud-chwarae neu siarâd), neu ceisiwch dynnu llun (gyda'r llygaid wedi gorchuddio neu gyda'r bapur ar dop eich pen) i weld pwy fedr ddyfalu'n gywir. Rhowch bwyntiau neu wobrau bychain (fel fferins neu nodau llyfrau).

### Llyfrau wedi lapio

Lapiwch ddetholiad o lyfrau mewn papur brown neu bapur anrhegion, a gofynnwch i bawb ddewis un parsel (heb wybod beth yw'r llyfr tu mewn). Gofynnwch i bawb flasu'r llyfr o leiaf, ac i geisio ei ddarllen i gyd. Yn y cyfarfod nesaf holwch beth oedd barn pawb ar eu llyfr syrpreis. Yn aml, gall hyn gyflwyno darllenydd i genre neu awdur sy'n ddieithr iddynt, a'u hannog i ledu eu gorwelion darllen. Mae o hefyd yn ddefnyddiol i gael rhywun i fenthyg a darllen llyfrau llai cyfarwydd.

### Blind date gyda llyfr

Dyma syniad ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen efallai. Mae'n debyg i llyfrau wedi lapio, ond y tro hwn mae'r aelodau yn dewis pa lyfr i'w lapio i roi i'w gilydd. Ysgrifennwch enwau pawb ar ddarnau o papur. Pob aelod i dynnu un enw o'r het ac yna dewis llyfr (o stoc y clwb neu'r llyfrgell) ar gyfer y person hwnnw. Rhaid iddynt lapio'r llyfr (efallai gan gynnwys cerdyn siap calon ar gyfer sylwadau'r darllenydd) gyda enw'r derbynydd ar y tu allan. Yn y sesiwn, mae pawb yn cymryd y parsel gyda'u henw hwy ar y label ac yn cytuno i geisio ei ddarllen. Y tro nesaf, holwch sut hwyl gafodd pawb ar eu 'blind date'.

### Ceisio cymar

Ysgrifennwch bytiau i fynd i golofn ceisio cymar ('lonely hearts') ar gyfer cymeriadau llyfrau, neu ysgrifennwch lythyr gan gymeriad at dudalen problemau neu golofn gyngor.

### Darllen ar draws y byd

Gosodwch fap o'r byd i fyny a defnyddiwch sticeri i nodi lleoliadau llyfrau a ddarllenwyd gan yr aelodau.

## Cefnogi darllenwyr eraill

### Mêts darllen

Mae cynlluniau cyfeillion neu 'buddy' darllen yn helpu i ddatblygu sgiliau darllen a hunan-barch darllenwyr. Maent yn newid agweddau tuag at ddarllen ac yn annog pobl ifanc i ddarllen yn fwy eang. Darllenwyr hŷn yw'r mêts darllen sy'n gweithredu fel cynghorwyr i rai iau. Gallech baru darllenwyr o fewn aelodaeth y clwb os oes gennych ystod oedran digon eang. Os na, holwch a fyddai darllenwyr hŷn



Hawlfraint © ContinYou 2006

yn barod i helpu. Efallai y gallant ennill marciau tuag at gymhwyster neu wobr. Dylid hyfforddi'r cynghorwyr ar sut i gynnal sesiwn ddarllen a sut i hyrwyddo llyfrau i'w mêts. Sicrhewch gyda'ch polisi gwarchod plant os ydych yn dod â mêts i mewn o leoliad neu ysgol arall.

Mae cynlluniau fel hyn yn ddefnyddiol yn ystod y trosglwyddiad i ysgol uwchradd. Fyddai hi'n bosibl i grŵp o fêts ymweld â'r ysgol gynradd yn ystod yr haf i sôn wrth Blwyddyn 6 am y clwb darllen a sut maent yn ei helpu?

**Ionawr**
Gwobr Llyfr Whitbread
www.whitbread-bookawards.co.uk

**Chwefror**
Wythnos Dweud Stori
www.sfs.org.uk

**Mawrth**
Diwrnod Llyfr y Byd (Iau cyntaf)
www.cllc.org.uk
www.worldbookday.com

**Ebrill**
Gwobr Orange am Ffuglen (oedolion)
www.orangeprize.co.uk

**Mai**
Mis Rhannu Stori
www.fcbg.org.uk

**Mehefin**
Gwobrau Carnegie a Greenaway
www.carnegiegreenaway.org.uk

**Gorff/Awst**
Sialens Ddarllen Genedlaethol llyfrgelloedd
www.readingagency.org.uk

**Hydref**
Wythnos Llyfrau Plant (wythnos lawn gyntaf)
www.booktrust.org.uk
Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth (Iau cyntaf)
www.poetrysociety.org.uk
Wythnos Dysgu'r Teulu
www.campaign-for-learning.org.uk
Mis Hanes Du
www.black-history-month.co.uk
Gwobr Man Booker (oedolion)
www.bookerprize.co.uk

**Tachwedd**
Gwobr Ffuglen Plant y Guardian
http://books.guardian.co.uk
Gwobrau Llyfrau Blue Peter
www.bbc.co.uk/cbbc/bluepeter/bookclub/awards/

## Cynllunio'r hyn i'w wneud

**Blwyddyn Y Llyfr**

Mae llawer o ddigwyddiadau arbennig yn ystod y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar lyfrau – gweler y rhestr gyfochrog. Dewiswch rai i ganolbwyntio arnynt a chynlluniwch nifer o weithgareddau o'u cwmpas. Gall y gwobrau llyfrau oedolion fod o ddiddordeb i ddarllenwyr ysgol uwchradd hŷn.

Gallech hefyd edrych ar ddigwyddiadau tymhorol fel Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Coffau'r Holocaust, Dydd Gwyl Dewi, Eisteddfod yr Urdd, Nadolig, Calan Gaeaf, a Noson Tân Gwyllt. Beth am benblwyddi neu ddigwyddiadau yn yr ysgol?

Mae digwyddiadau mawr rhyngwladol fel y Gemau Olympaidd neu Gwpan y Byd yn gyfle i gynnal sesiynnau ar lyfrau wedi eu lleoli mewn gwahanol wledydd neu lyfrau wedi eu cyfieithu, llyfrau gwybodaeth am wledydd neu lyfrau ar themau chwaraeon. Am syniadau ar bêldroed ewch i wefan Reading the Game yn www.literacytrust.org.uk/Football/index.html.

# Sut mae cael y llyfrau ac adnoddau fydd eu hangen?

Er mwyn darparu ar gyfer dant pawb a'u gwahanol ddiddordebau a galluoedd, bydd eich clwb angen mynediad at ystod eang o lyfrau a deunyddiau darllen. Ystyriwch anghenion bechgyn a merched – oherwydd fe fydd gwahaniaeth.

Sicrhewch eich bod yn cynnwys:

- ffuglen a barddoniaeth cyfoes newydd
- clasuron modern a thraddodiadol
- llyfrau lluniau (gan gynnws rhai ar gyfer darllenwyr hŷn)
- llyfrau ffeithiol a chyfeiriol
- llyfrau llafar ar CD
- llyfrau mewn ffurfiau amgen fel bo'r angen (er enghraifft, braille)
- comics, cylchgronnau a phapurau newydd.

Bydd y rhan helaeth o'ch stoc yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg, ond fe allech gynnwys llyfrau mewn ieithoedd eraill a siaredir gan eich aelodau. Trefnwch weithgareddau ar lyfrau mewn ieithoedd eraill, llyfrau aml-ieithog a llyfrau wedi eu cyfieithu.

## Sut i ddewis llyfrau

Anelwch am:

- gyfuniad o lyfrau wedi eu dewis gan oedolion gwybodus a llyfrau o ddewis yr aelodau eu hunain
- rhai llyfrau allweddol gan yr awduron mwyaf enwog ac adnabyddus
- mewnbwn rheolaidd o awduron newydd a themau neu genres anghyfarwydd
- llyfrau'r foment (er enghraifft, llyfrau o ffilmiau neu raglenni teledu; llyfrau chwaraeon neu'r 'craze' diweddaraf) – fe wnant wyrthiau i ddelwedd y clwb!

Gofynnwch am gymorth gan lyfrgellydd plant neu ysgolion. Adeiladwch eich gwybodaeth eich hun am lyfrau trwy ddarllen cymaint â phosibl a thrwy edrych ar wefannau llyfrau a thrwy gylchgronnau llyfrau plant fel *Books for Keeps*, *Carousel*, *TbK*, *Teen Titles* a *Bawd*. Holwch yr aelodau – oes yna lyfrau yr hoffent hwy eu gweld yn y clwb?

### Benthyca

- llyfrgell yr ysgol ei hun – mae sawl clwb darllen uwchradd yn seiliedig ar lyfrgell yr ysgol felly fe fydd gennych ystod dda o stoc gerllaw.
- i gefnogi eich clwb, efallai y bydd eich Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion yn barod i fenthyg casgliad cyffredinol o lyfrau, neu gasgliad yn seiliedig ar ba bynnag thema, awdur neu bwnc mae'r clwb yn ei ddilyn (fe all mynediad i'r gwasaneth hwn fod yn ddibynnol ar gytundeb eich ysgol gyda'r Gwasanaeth neu efallai nad ydych ddigon ffodus i gael Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion yn eich ardal chi).
- eich llyfrgell gyhoeddus leol – holwch am gerdyn aelodaeth arbennig i'r clwb fel y cewch fenthyg mwy o lyfrau am gyfnod hirach. Beth am gynnwys ymweliadau rheolaidd â'r llyfrgell i ddewis llyfrau newydd yn eich rhaglen? Bydd yn helpu'r aelodau i feithrin sgiliau pori a dethol, ac fe ddont yn gyfarwydd â'u llyfrgell leol. Bydd benthyg llyfrau llyfrgell a'u newid yn rheolaidd yn sicrhau cyflenwad cyson o lyfrau newydd, ffresh, o safon ar gyfer eich aelodau.

### Prynu

- Os nad yw'n seiliedig mewn llyfrgell, dylai fod gan y clwb darllen ei gasgliad creiddiol parhaol ei hun o lyfrau allweddol. Dyma fydd eitem gwariant fwyaf clwb newydd. Osgowch defnyddio llyfrau o ddosbarthiadau.
- Efallai y bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, busnesau lleol neu grwpiau cymunedol yn barod i roi arian neu i dalu am danysgrifiad cylchgrawn.
- Eich bod yn cael gostyngiad da trwy brynu gan gyflenwyr da (efallai y bydd eich Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion neu'r llyfrgell leol yn gallu eich helpu i brynu gan eu cyflenwyr hwy).
- Bydd clybiau sy'n ymuno â Book-It!, rhaglen clybiau darllen ContinYou, yn cael mynediad i ostyngiad o 50 y cant gan rai cyhoeddwyr. Ewch i www.readingclub.org.uk am fanylion.

### Rhoddion

- I ychwanegu at stoc creiddiol o lyfrau safonol o lyfrgell neu sydd wedi eu prynu, gallech hefyd wahodd rhoddion o lyfrau gan yr aelodau, rhieni neu'r gymued ehangach. Fe all hyn fod yn ffordd effeithiol o godi proffeil y clwb o fewn cymuned yr ysgol.
- Pwysleisiwch fod rhaid i'r llyfrau fod mewn cyflwr da iawn ac yn apelio at eich aelodau. Mae llyfrau sydd wedi



Hawlfraint © ContinYou 2006

eu rhoi yn ychwanegu elfen bersonol, ac fe allech osod labeli wedi eu harwyddo gan y rhoddwyr y tu mewn i gloriau'r llyfrau.

- Trefnwch weithgaredd cyfnewid llyfrau neu gomics, neu drefnwch fwrdd yn eich cyfarfodydd lle gall aelodau roi llyfrau o adref i'w cyfnewid am rywbeth gwahanol. Chwynwch eich casgliad o lyfrau a chylchgronnau rhoddedig yn rheolaidd – fe ânt yn fler yn gyflym. Bydd ychydig o gopïau mewn cyflwr da yn llawer mwy deniadol na phentwr o sbwriel.

## Dyma sut aethom ni ati…

Prif amcanion ein clwb yw i gael pobl ifanc yn darllen er mwyn pleser a mwynhad ac i'w cael nhw i ddarganfod byd llyfrau. Pan ddois i i'r llyfrgell ysgol hon, roedd y grŵp yn bodoli'n barod ond yn tueddu i ganolbwyntio popeth ar gysgodi gwobrwyon llyfrau. Fe wnaethon ni ddefnyddio syniad y Big Read ac fe ddarllenodd Bl. 11 y 21 Uchaf o hwnnw. Roeddwn i eisiau dod â mwy o amrywiaeth i mewn felly rydyn ni hefyd yn cael thema bob tymor rwan – ar hyn o bryd ffantasi a gwyddoniaeth – ac mae'n boblogaidd iawn. Roedd y ffuglen hanesyddol y tymor diwethaf yn fwy o her! Byddwn yn cysgodi Medal Carnegie oherwydd rydych yn teimlo'n rhan o hwnnw – mae'r wefan ryngweithiol yn ardderchog. Cawsom barti ar ddiwedd tymor yr haf llynedd i ddathlu enillydd y fedal ac fe wahoddwyd llywodraethwyr a phobl allweddol eraill, er mwyn i ni hyrwyddo'r clwb iddyn nhw.

Rydym yn cyfarfod bob wythnos a dwi'n teimlo eu bod angen rhywbeth bach i'w wneud yn ogystal â siarad am eu darllen – felly rydym yn sgwennu sylwadau carllenwyr byr iawn, yn cynllunio posteri i hyrwyddo llyfrau ac yn creu cymeriadau newydd ar gyfer llyfrau, er enghraifft. Mae pob aelod yn cael marciau am ymroddiad ac ymdrech yn y clwb. Dwi'n trefnu pob seiswn (neu fe fyddai llanast neu diflastod) a dwi yn darllen y llyfrau i gyd fy hun – mae hynny'n hanfodol os ydych yn mynd i sgwrsio hefo'r aelodau am lyfrau ac awgrymu rhai newydd iddynt ddarllen. Does gennym ni ddim stoc arbennig ar gyfer y clwb – rydym yn defnyddio stoc y llyfrgell – ond mae aelodau'r clwb yn cael y dewis cyntaf o'r llyfrau newydd – un o'r breintiau! Does gennym ddim cyllid – ond dwi'n rhedeg dau glwb gwerthu llyfrau ac yn gwneud comisiwn da sy'n help i brynu llyfrau newydd i lyfrgell yr ysgol.

Er mod i'n cymryd yr awenau wrth redeg y clwb, dwi'n cael cefnogaeth dda gan staff yr adran Saesneg – mae un neu ddau fel arfer yn dod i'r cyfarfodydd ac yn hyrwyddo'r clwb yn eu dosbarthiadau. Yn aml mae nhw'n sylwi ar rywun fyddai'n elwa o ddod yn aelod. Dwi wedi gweld yr aelodau yn datblygu – yn arbennig yn eu hyder fel darllenwyr – be mae nhw'n dewis i'w ddarllen a sut mae nhw'n sgwrsio amdano. Mae gennym rai aelodau ag anghenion arbennig ac mae'n wych gweld fod yr aelodau hyn yn dal i ddod – mae nhw'n cefnogi'r rhai iau ac mae nhw'n fodelau rôl pwerus iawn.

### Cynghorion

- Cynlluniwch ymlaen llaw – ar gyfer y tymor ac ar gyfer bob sesiwn. Penderfynwch beth i'w gyflawni.
- Cadwch feddwl agored a byddwch yn hyblyg o fewn fframwaith eich cynllun ar gyfer y sesiwn – pleser yw'r nod ac nid gwaith caled.
- Sicrhewch fod eich aelodau yn teimlo'n arbennig.

*Cynorthwy-ydd llyfrgell ysgol uwchradd*

# Gweithgareddau

## Sgwrsio am lyfrau

Defnyddiwch rai o'r cwestiynnau hyn i gychwyn eich trafodaeth. Llungopïwch nhw, lamineiddiwch a thorrwch nhw yn gardiau cwestiwn unigol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedd o beth roeddech chi'n ei ddisgwyl o'r llyfr hwn? | Beth oeddech chi'n feddwl o'r diweddglo? | Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl gorffen y llyfr? | Pwy oedd eich hoff gymeriad? |
| Wnaeth eich teimladau newid wrth ddarllen trwy'r llyfr? | Fyddech chi'n argymell y llyfr yma i rywun arall? | Pa fath o ddarllenydd fyddai'n mwynhau'r llyfr hwn? | Fyddech chi wedi dewis y llyfr hwn yn arferol? |
| Wnaethoch chi gychwyn yn araf neu oeddech chi'n mynd fel y gwynt o'r dechrau? | Gyda pha gymeriad hoffech chi dreulio amser ar ynys bellenig? | Ydi'r llyfr yn eich atgoffa o unrhyw lyfr neu ffilm arall, neu brofiad personol? | Oedd rhannau o'r llyfr yn fwy darllenadwy nag eraill? |
| Wnaeth rywun neu rywbeth eich gwylltio a'ch rhwystro rhag cychwyn? | Beth roddodd fraw i chi? | Sut ddylai'r llyfr fod wedi gorffen? | Pa ran o'r llyfr roddodd fwyaf o drafferthion i chi? |
| Pam wnaethoch chi ddewis y llyfr yma i'w ddarllen? | Oes 'na un olygfa sy'n aros yn y cof yn arbennig? | Oeddech chi'n hoffi rhai cymeriadau yn fwy nag eraill? | |
| Pa gymeriad ysgogodd eich ymateb cryfaf? | Os na wnaethoch orffen darllen y llyfr, fedrwch chi egluro pam nad oedd yn apelio? | Beth yw eich barn ar glawr a golwg y llyfr? | |



Hawlfraint © ContinYou 2006

## Annwyl ddarllenydd …

Defnyddiwch rai o'r cwestiynnau hyn i gael pawb i siarad am eu hunain fel darllenwyr. Llungopïwch nhw, lamineiddiwch a thorrwch nhw yn gardiau cwestiwn unigol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wyt ti'n ail-ddarllen llyfrau? | Dewisa lyfr lle rwyt ti'n cofio ble'r oeddet ti wrth ei ddarllen am y tro cyntaf | Wyt ti'n darllen y pethau diweddaraf i gadw i fyny? | Wyt ti'n darllen i osgoi bod yn ddiflas? |
| Wyt ti'n darllen yn yr awyr agored? | Pa gymeriad hoffet ti fod? | Ydi llyfr erioed wedi helpu ti i ddelio â phroblem? | Ym mhle wyt ti'n cadw dy lyfrau adref? |
| Wyt ti'n cael dy ddylanwadu os ydi llyfr wedi ennill gwobr? | Pam wyt ti'n rhoi'r gorau i lyfr cyn y diwedd? | Pam wyt ti'n dod i glwb darllen? | Oes well gen ti lyfrau byr neu lyfrau hir? |
| Wyt ti'n darllen mewn mannau cyhoeddus? | Wyt ti'n darllen i ddysgu rhywbeth? | Gefaist ti dy siomi gan lyfr erioed? | Wyt ti'n darllen am gyfnodau hir neu gyfnodau byr? |
| Oes gen ti hoff gadair i ddarllen ynddo? | Beth arall wyt ti'n ei wneud tra'n darllen? | Wyt ti'n ystyried beth mae pobl eraill yn dy weld yn ei ddarllen? | Wyt ti'n darllen i amddiffyn dy hun neu i guddio weithiau? |
| Wyt ti'n chwilio am rywbeth cyfarwydd neu rhywbeth newydd? | Lle ydi'r lle mwyaf anarferol i ti ddarllen ynddo? | Gyda phwy wyt ti'n siarad am y llyfrau rwyt ti'n eu darllen? | Wyt ti'n cael gwared ar lyfrau? |

Annwyl ddarllenydd… (rhagor o gardiau holi)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sut wyt ti'n nodi'r lle rwyt ti wedi cyrraedd mewn llyfr? | Wyt ti'n hoffi cymeriadau sydd yn debyg i ti neu sydd ddim yn debyg i ti? | Wyt ti erioed wedi dweud celwydd am beth rwyt ti wedi ei ddarllen? | Wyt ti'n cofio'r llyfr cyntaf i ti ddarllen? |
| Wyt ti'n edrych ar y diwedd cyn cyrraedd yno? | Wyt ti wedi cael braw wrth ddarllen? | Wyt ti'n hoffi gwrando ar rywun arall yn darllen? | Oes 'na lyfr rwyt ti wedi bwriadu ei ddarllen ers amser maith ond heb wneud? |
| Beth sy'n fwyaf tebygol o dy wylltio mewn llyfr? | Pa fath o lyfr fyddi di'n ei osgoi? | Wyt ti'n darllen yn y gwely cyn mynd i gysgu? | |
| Fedri di ddarllen tra mae pethau eraill yn digwydd o dy gwmpas? | Wyt ti bob tro yn darllen i ddiwedd llyfr ar ôl ei gychwyn? | Sut wyt ti'n penderfynu beth i ddarllen nesaf? | |
| Pam wnest ti ddewis y llyfr rwyt ti'n ei ddarllen ar hyn o bryd? | Wyt ti'n aros i fyny yn hwyr i orffen llyfr? | Wyt ti'n crio wrth ddarllen? | |
| Oes gen ti fwy nag un llyfr ar fynd ar yr un pryd? | Sut wyt ti'n cychwyn darllen llyfr? | Wyt ti'n darllen i ymlacio? | |



Hawlfraint © ContinYou 2006

## Llyfrnodi

Llungopïwch a thorrwch i mewn i 4 llyfrnod – rhowch set o 4 i bob darllenydd.

Dyma lle arhosais i feddwl am fy ymateb i'r darn cyntaf i mi ddarllen

Argraffiadau cyntaf

Disgwyliadau

Dyma lle cefais afael go iawn yn y llyfr ac roeddwn yn gwybod y byddwn yn parhau i'w ddarllen

Beth sydd wedi fy machu?

Disgwyliadau

Dyma lle dechreuais golli diddordeb yn y llyfr

Beth sydd wedi achosi hyn?

Disgwyliadau

Dyma'r dudalen olaf i mi ei ddarllen

Oedd o werth yr ymdrech?

Cyngor i ddarllenydd arall

# Sut mae dweud wrth bawb am y clwb?

Penderfynwch pwy sydd angen gwybod am y clwb a beth maent angen ei wybod. Trefnwch eich cyhoeddusrwydd i weddu i'r gynulleidfa.

- Defnyddiwch eich aelodau – nhw yw eich erfyn marchnata fwyaf pwerus. Gallant ddangos i eraill beth mae'r clwb yn ei gyflawni ac ennyn cefnogaeth i'r clwb.
- Ymgyrch bosteri gyda elfen o ddirgelwch pan yn cychwyn y clwb.
- Rhowch hysbysiadau mewn cofrestri dosbarth yn rheoliadd fel bod cydweithwyr yn dweud wrth eu disgyblion beth sy'n digwydd.
- Defnyddiwch hysbysfyrddau a mannau arddangos o gwmpas yr ysgol, nid dim ond yn ymyl lleoliad arferol y clwb.
- Rhowch bosteri mewn lleoliadau fel y llyfrgell leol, canolfan hamdden, canolfannau cymunedol.
- Cynigiwch i gynnal gwasanaeth arbennig neu noson rieni.
- Cynhyrchwch daflen newyddion, e-lythyr neu wefan.
- Cynhyrchwch fathodynnau aelodaeth, cardiau, capiau neu grysau T.
- Ysgrifennwch ddatganiadau newyddion i'r wasg leol. Cadwch nhw'n fyr, yn gryno ac yn ffeithiol, gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol ac enw a rhif ar gyfer gwybodaeth bellach. Gwahoddwch ffotograffwyr i ddigwyddiadau, partïon a gweithgareddau arbennig.
- Cynigiwch golofn reolaidd o sylwadau darllenwyr eich aelodau ar gyfer eich papur bro neu bapur lleol.
- Cyfrannwch erthyglau i gylchlythyrau'r awdurdod a'r wasg broffesiynol.

Cofiwch gydnabod gefnogaeth partneriaid ac ariannwyr.

Peidiwch â bod yn swil – dywedwch wrth y byd am yr hyn rydych yn ei gyflawni.

Sicrhewch fod rhieni yn gwybod am y clwb – eglurwch ei bwrpas, pwy sy'n ei redeg, beth fydd yn digwydd, a'r trefniadau os na fydd yn gallu cyfarfod. Mae cefnogaeth rhieni yn bwysig, yn arbennig ar gyfer clwb sy'n cyfarfod ar ôl ysgol, ar benwythnos neu yn y gwyliau.

Hawlfraint © ContinYou 2006

# Sut mae cynnal pethau?

Sicrhewch amrywiaeth dda o weithgareddau a cheisiwch ddenu llif o aelodau newydd. Mae ymchwil y *Reading clubs report* yn dangos taw'r prif reswm dros fethiant clwb (niferoedd yn disgyn a brwdfrydedd yn gwanhau) yw dewis y gweithgareddau anghywir.

Dewch â'r aelodau i mewn i gynllunio a gwerthuso gweithgareddau. Cadwch fynd gyda'r cyhoeddusrwydd, sicrhewch eich bod yn cael adborth gan yr aelodau a holwch eraill pam nad ydynt yn mynychu.

Os nad yw'n gweithio, peidiwch â bod ofn dod â'r peth i ben, ei newid ac ail-gychwyn.

## Gosod esiampl dda

Cychwynwch gylch darllen staff i ddangos fod oedolion yn darllen er mwyn pleser ac yn rhannu eu profiadau darllen gydag eraill. Gallech ddarllen llyfrau oedolion neu pobl ifanc, neu cymysgedd o'r ddau. Efallai y byddai gwin a chnau yn denu pobl yno. Holwch os yw eich llyfrgell leol yn gallu benthyca setiau o lyfrau i chi a chynnig cysylltiadau gyda grwpiau darllen eraill yn yr ardal. Mae gan *Rhannu'r wefr: canllawiau ar gyfer grwpiau darllen* (Cyngor Llyfrau Cymru, 2005) lawer o gyngor defnyddiol a syniadau – dylai fod copi ar gael trwy eich llyfrgell leol neu fe allwch ei ddarllen arlein yn www.cllc.org.uk.

## Cydnabod cyrhaeddiad yr aelodau

Gwobrwywch aelodau am eu hymroddiad i'r clwb ac i wneud iddynt deimlo'n arbennig am fod yn ddarllenwyr.

Rhannwch gardiau aelodaeth, a thystysgrifau am fynychu neu am ymddygiad da. Trefnwch barti pen tymor. Rhowch wobrau am gwisiau a chystadlaethau.

Beth am gael seremoni gwobrwyon y clwb – gofynnwch i'r aelodau feddwl am gategorïau (y darllenydd mwyaf arbrofol, y darllenydd mwyaf rhyfeddol, y darllenydd mwyaf ffyddlon ac yn y blaen).

Os oes gennych system bwyntiau tŷ, rhowch farciau am ymroddiad i gyfarfodydd y clwb ac i ddarllen. Cydnabyddwch aelodau unigol os ydynt yn cynorthwyo gyda threfniant y clwb.

### Dyma sut aethom ni ati…

Mae o'n union fel grŵp darllen oedolion – rydyn wedi bod yn darllen *Small Island*, *Pride and Prejudice*, a *1984*. Disgyblion galluog o Flwyddyn 10 ac 11 yw'r aelodau–- grŵp bychan gyda mwy o fechgyn na merched. Fe helpodd yr athrawon trwy eu targedu a'u gwahodd. Byddwn yn cyfarfod bob pythefnos am 40 munud dros diwedd yr awr ginio a'r cyfnod cofrestru pnawn (fe gefais gymorth y dirprwy bennaeth i ryddhau'r aelodau). Byddwn yn treulio mis ar bob llyfr – i roi amser i bawb ei ddarllen. Fe gawn de a bisgedi, ac mae'r aelodau wrth eu bodd yn cael eu trin fel oedolion – fe gawsom ein llun yn y papur hyd yn oed!

#### Cynghorion

- Mewn unrhyw glwb darllen, mae'n syniad da i ddod o hyd i ffyrdd o wneud eich aelodau deimlo'n arbennig.
- Os bydd eich clwb yn gwneud rhywbeth fydd o ddiddordeb i weddill y gymuned, cysylltwch â'r papur newydd neu orsaf radio lleol.

*Cynorthwy-ydd llyfrgell ysgol uwchradd*

### Dyma sut aethom ni ati…

Roedden ni eisiau codi proffeil y llyfrgell ymysg nifer o ysgolion lleol, felly fe weithiais gyda'r cynorthwywyr llyfrgell i sefydlu clybiau darllen Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod yr awr ginio neu ar ôl ysgol. Mae gen i gyllid bychan i helpu i dalu am lyfrau a rhai ymweliadau awduron; mae'r staffio yn wirfoddol ac mae rhai athrawon yn helpu hefyd. Mae'r clybiau yn cyfarfod bob wythnos am 6 wythnos ar y tro – mae'n ddigon hir i ofyn i bobl ifanc ymrwymo iddo. Gan amlaf mae pawb yn darllen yr un llyfrau (un teitl Cymraeg ac un Saesneg ym mhob bloc 6 wythnos), ac rydym yn cynnwys rhai gweithgareddau ar gyfer amrywiaeth ac i annog y darllenwyr llai galluog. Mae rhai o'r clybiau wedi bod i weld ffilmiau o lyfrau hefyd.

#### Cyngor

- Gynnal diddordeb, weithiau mae'n ddefnyddiol i redeg clwb darllen am flociau byrrach o amser, dwy waith y flwyddyn dyweder.

*Llyfrgellydd plant ac ysgolion*

# Fyddwn ni angen cyllid ac o ble cawn ni'r arian?

Gyda gwirfoddolwyr i redeg y clwb gyda chymorth yr aelodau, llyfrau ar fenthyg gan eich Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion, llyfrgell leol neu lyfrgell yr ysgol, a'ch holl deunydd cyhoeddusrwydd wedi ei gynhyrchu'n fewnol, efallai na fydd angen unrhyw arian arnoch i redeg eich clwb!

Does gan nifer o glybiau llwyddiannus iawn ddim cyllid eu hunain, felly peidiwch â gadael i ddiffyg arian eich rhwystro rhag sefydlu clwb.

Fodd bynnag, wrth i chi gynllunio eich clwb bydd rhaid i chi fod yn glir os bydd angen arian penodol arnoch:

- Fydd eich holl staff yn wirfoddol neu'n bobl sy'n cynnig gwasanaethau di-dal, neu fydd angen i chi dalu? Gofwynnwch am gyngor gan eich pennaeth/uwch staff a sicrhewch fod gennych gefnogaeth y rheolwyr ar bopeth sy'n ymwneud â staffio a goruchwyliaeth.
- Os nad yw eich clwb yn ran o ysgol, sicrhewch eich bod yn gwybod pa gyllideb neu arian y bydd ei angen a sut bydd y clwb yn rhedeg.
- Fyddwch chi eisiau prynu llyfrau a chylchgronnau at ddefnydd aelodau'r clwb yn unig?
- Fyddwch chi angen deunyddiau i greu cyhoeddusrwydd? Paper ar gyfer allbrintio o'r rhyngrwyd, er enghraifft?
- Ydych chi eisiau rhoi anrhegion bach i'r aelodau – bathodynnau, beiros, llyfrau nodiadau, crysau T ac yn y blaen?
- Fydd raid i chi dalu am logi'r ystafell os nad ydych yn yr ysgol?
- Fyddwch chi eisiau mynd â'r aelodau ar ymweliadau – fydd na gostau mynediad neu gludiant?
- Oes angen ystyried materion iechdy a diogelwch neu yswiriant?
- Fyddwch chi'n cynnig lluniaeth? Mae'n debyg y bydd angen hyn mewn clwb ar ôl ysgol neu glwb gwyliau.

Ystyriwch gynaladwyaeth tymor hir y clwb – hyd yn oed os cychwynnwch gyda dim arian, rydych yn debygol o fod eisiau peth nes ymlaen. Holwch eich pennaeth, rheolwr neu swyddog cyllid am gyngor. Rhowch eich costau tebygol i lawr ar papur a nodwch pob math o gymorth sy'n dod am ddim.

## Ffynonellau arian

Os byddwch yn penderfynu bod angen chwilio am arian mae sawl ffynhonnell i'w hystyried.

### O fewn yr ysgol

- cyllideb yr ysgol
- cronfa'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
- codi arian penodol

### O fewn yr awdurdod lleol

- Mentrau'r AALl (er enghraifft, ar gyfer disgyblion dawnus, llythrennedd neu driwanta); os cysylltwch eich clwb gyda chynlluniau strategol neu llythrennedd eich ysgol, a fyddwch yn gallu cael mynediad i arian?
- Arian gwasanaeth llyfrgell neu gelfyddydol i gefnogi mentrau darllen neu lenyddiaeth
- Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
- Cynghorwyr lleol (mae gan rai cynghorwyr gyllidebau bychain ar gyfer prosiectau lleol, neu gallant helpu i 'noddi' cais i gronfa fwy o fewn yr awdurdod – holwch eich llywodraethwyr perthnasol)

### Ariannwyr lleol

- Nawdd gan fusnesau lleol (yn aml mae mynd at fusnes yn fwy llwyddiannus os yw'r perchennog neu un o'r staff yn riant yn yr ysgol)
- Cyrff lleol sy'n cynnig grantiau (er enghraifft, cynghorau tref, ymddiriedolaethau elusennol, Clwb Rotari) – bydd eich Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol lleol yn gallu eich cyfeirio at ddarpar ariannwyr

### Cyrff ariannu ac ymddiriedolaethau grantiau cenedlaethol

Mae nifer o rhain, fel y Gronfa Loteri Fawr, Arian i Bawb, Paul Hamlyn, RiF, Academi. Edrychwch ar yr adran Cysylltiadau defnyddiol.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cais i wahanol lefydd ar gyfer gwahanol agweddau o'r clwb (staffio, llyfrau, nwyddau) ac efallai y cewch gynnig cymorth yn hytrach nag arian (amser, sgiliau neu nwyddau).

## Gwneud cais am arian

- Sicrhewch eich bod chi neu eich sefydliad yn gymwys i ymgeisio.
- Allwch chi ddefnyddio'r GRhA neu statws elusennol y GRhA i gael mynediad? Fel ysgol efallai na chewch chi wneud cais i rai fynonellau. Holwch os gall y GRhA wneud cais ar eich rhan.



Hawlfraint © ContinYou 2006

- Sicrhewch fod yr ariannwyr yn ariannu'r math hwn o weithgaredd.
- Byddwch yn wyliadwrus o ddyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, ac ystyriwch faint o amser fydd yn pasio cyn i chi glywed yn ôl gan yr ariannwyr.
- Cadwch pethau'n syml – peidiwch â dweud eich bod am wneud pethau na fyddwch fyth yn eu cyflawni.
- Cadwch amcanion neu anghenion yr ariannwyr mewn golwg a saerniwch eich cais i ffitio gyda nhw.

Gall ContinYou Cymru gynorthwyo gyda chyngor ar godi arian.

## Edrych ar ôl yr arian

- Cadwch gofnod o'ch holl incwm a gwariant – holwch eich swyddog cyllid neu weinyddydd am gyngor ar sut i sefydlu system syml ac effeithiol.
- Adolygwch eich gwariant yn erbyn eich cyllideb yn rheolaidd.
- Sicrhewch eich bod yn gwario o fewn telerau eich ariannu.
- Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio gyda gofynion eich ariannwyr wrth adrodd yn ôl ar eich defnydd o'r arian.

## Dyma sut aethom ni ati…

Fel ysgol roeddem yn gwybod fod sgiliau llythrennedd, yn arbennig sgiliau darllen, ein disgyblion yn isel a'u bod yn cael ychydig iawn o gefnogaeth adref i ddatblygu eu sgiliau a'u brwdfrydedd darllen. Fel athrawes anghenion arbennig roeddwn yn arbennig o ymwybodol o hyn ac yn awyddus i gynnig rhywbeth ychwanegol i helpu. Oherwydd mod i wrth fy modd yn darllen ac yn credu y dylai pob plentyn gael y cyfle i garu llyfrau hefyd, fe gynigiais i gychwyn clwb darllen ar-ôl-ysgol.

Roeddem yn ffodus i gael grant i sefydlu'r clwb – roedd yn talu am fy amser i ac am lyfrau. Targedu Blwyddyn 4 a 5 wnaethon ni a gwahodd pawb oedd â diddordeb, a defnyddio ychydig o berswâd ar y rhai a fyddai'n elwa fwyaf. Fe gliriwyd ystafell oedd yn llawn llanast, ei beintio, ac fe ges i afael ar glustogau llawr enfawr – roeddwn i eisiau creu awyrgylch hamddenol ac anffurfiol oedd ddim byd tebyg i ddosbarth. Fe brynon ni lyfrau – rhai nad oedd yn gysylltiedig â'r dosbarth ac a oedd yn newydd i'r plant. Fe gasglon ni hefyd ddeunydd darllen o bob math – catalogau gwyliau, pecynnu bwyd, cylchgronnau a chomics. Fe ofynnon ni i'r aelodau pa fath o weithgareddau roedden nhw eu heisiau – yn aml roedden nhw eisiau ail-adrodd rhai gweithgareddau poblogaidd. Fe sgwennon adolygiadau ac fe ddaeth ymwelwyr i mewn i siarad am eu darllen. Daeth un wraig leol â'i chasgliad o 4,000 o lyfrnodau i mewn – roedd y plant wedi eu gwefreiddio. Roedd y raffl 20c yn boblogaidd iawn – roedd y plant oedd ddim yn aelodau eisiau prynu tocynnau. Rhoddodd gyd-weithwyr a rhieni wobrau bach ar gyfer y raffl – fel arfer rhwybeth yn gysylltiedig â darllen. Ar un adeg roedd gennym fwy o aelodau na'r clwb pêldroed ar yr un pnawn – ac roedd y pêldroedwyr yn arfer dod i mewn am ddiod a stori ar ôl eu sesiwn.

Fe gadwyd mewn cysylltiad â chyn-aelodau wedi iddynt symud i fyny i'r ysgol uwchradd – fe wnaethon ni eu gwahodd i ymweld â'r clwb ac i ddod yn gynorthwywyr gwirfoddol gyda chyfrifoldebau fel edrych ar ôl yr arian neu gadw'r gofrestr. Yn eu tro, fe wnaethon nhw dderbyn canmoliaeth arbennig gan bennaeth yr ysgol uwchradd. Fe aeth y clwb cyfan ar ymweliad â'r ysgol uwchradd un flwyddyn – gweithgaredd trosglwyddo ardderchog. Tro arall fe gawsom bicnic mawr hefo'r rhieni. Fe welson ni newid mawr yn agwedd y plant tuag at ddarllen dros y flwyddyn. Roedd ganddynt lawer mwy o ddiddordeb mewn prynu llyfrau yn ffeiri llyfrau'r ysgol, ac roedd canlyniadau eu profion darllen lawer uwch. Roeddynt wedi darganfod yr ysgogiad i ddarllen ac yn ei weld fel rhywbeth llawer mwy na rhywbeth i'w wneud yn y dosbarth.

## Cynghorion

- Mae darllenwyr anfoddog neu rhai gyda sgiliau llythrennedd is yn fwy tebygol o gael eu hannog i ddarllen os yw'r amgylchedd ar gyfer darllen yn groesawgar a chyfforddus.
- Mae sicrhau amrywiaeth o weithgareddau, cystadlaethau bychain ac ymwelwyr i'ch clwb darllen yn ei gadw'n ddiddorol ac yn ddeniadol i ddarllenwyr.
- I gryfhau eich cronfa o wirfoddolwyr, gwahoddwch yn ôl cyn-ddisgyblion sydd wedi bod yn aelodau i helpu i redeg eich clwb.

*Athrawes gynradd*

# Sut fydd y clwb yn cyfrannu tuag at yr agenda ddysgu ehangach?

## Trosglwyddiad

Mewn gwrthgyferbyniad â'r tueddiad sy'n dangos gostyngiad mewn sgiliau wrth gychwyn Blwyddyn 7, mae aelodau clybiau darllen sy'n darllen yn rheolaidd er mwyn pleser yn fwy tebygol o gynnal a datblygu eu sgiliau yn dilyn trosglwyddiad.

Gall clwb darllen helpu yn y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Gallai clwb cynradd wahodd cyn aelodau sydd bellach ym Mlwyddyn 7 neu 8 yn ôl i siarad am eu profiadau darllen yn yr ysgol uwchradd. Y flwyddyn ysgol ganlynol, gallai'r un darllenwyr hŷn helpu disgyblion newydd ym Mlwyddyn 7 oedd yn y clwb darllen cynradd, a'u hannog nhw i fynychu clwb darllen yn yr ysgol uwchradd.

Gallai clwb uwchradd groesawu ymwelwyr o Flwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd lleol yn ystod ymweliadau cyfeiriadol tymor yr haf, ar gyfer gemau a gweithgareddau darllen.

Gall glwb darllen hefyd fod yn hafan ddiogel i bobl ifanc sy'n gweld yr ysgol uwchradd newydd yn frawychus, neu sydd ddim eisiau treulio eu hawr ginio ar y buarth. Gallant wneud ffrindiau newydd a chymryd rhan mewn gweithgaredd bwrpasol.

Edrychwch ar *O'r cynradd i'r uwchradd – symud ymlaen: dysgu-allan-o-oriau ysgol a throsglwyddiad*, gyhoeddwyd gan ContinYou Cymru. Mae ar gael i'w lawrlwytho o www.continyou.org.uk neu fe allwch ei archebu dros y ffôn ar 029 2047 8929.

## Galluog a thalentog

Bydd llyfrau heriol, trafodaeth a dadl frwd, a chefnogaeth oedolion cefnogol yn rhoi cyfle i ddarllenwyr galluog ddatblygu eu sgiliau a'u diddordebau ymhellach. Byddai modd ymestyn gweithgareddau'r clwb iddyn nhw trwy gyflwyno tasgau ysgrifennu heriol a rhoi cyfrifoldebau iddynt o fewn y clwb. Rhaid i'r clwb gael mynediad i ystod eang o lyfrau o safon sy'n addas i'r oedran ond a fydd yn ymestyn ac yn cyfoethogi darllenwyr galluog (gan gynnwys barddoniaeth, ffuglen oedolion a llyfrau wedi eu cyfieithu).

## Ysgolion bro

Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda gwasnaethau fel llyfrgelloedd, grwpiau gwirfoddol ac ysgolion eraill yn cyfrannu tuag at eich agenda cymunedol fel ysgol. Gwahoddwch ymwelwyr i'r clwb i siarad am eu darllen neu i ddarllen i'r aelodau, gofynnwch am wirfoddolwyr i helpu i gynnal y clwb, ac ewch ar ymweliadau i'r llyfrgell neu ganolfan gelf. Cynigiwch i ymweld ag ysgolion eraill i siarad am lyfrau a darllen gyda chyfoedion a phlant iau. Beth am drefnu clwb darllen ar y cyd fel clwstwr, gan newid lleoliad neu ddefnyddio lleoliad canolog cymunedol fel llyfrgell leol neu ganolfan gymunedol? Byddai'r dull clwster hwn yn addas iawn ar gyfer clwb adeg gwyliau ysgol neu ar Ddydd Sadwrn.

Mae ContinYou Cymru yn rhedeg y gwasanaeth Cefnogi Ysgolion Bro yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 029 2047 8929.

## Sgiliau dysgu annibynnol

Bydd y sgiliau a ddatblygir mewn clwb darllen, fel dewis beth i'w ddarllen, myfyrio ar eu darllen, ymateb i'r syniadau o fewn llyfr, a mynegi eu hymateb i'w darllen, yn gymorth i'ch aelodau ddatblygu yn ddarllenwyr am oes ac i weld eu hunain fel dysgwyr gydol oes. Mae llyfrau yn herio golwg person ar y byd, yn cynnig dealltwriaeth a phrofiadau newydd, ac yn gofyn i'r darllenydd dyfu'n emosiynol ac yn ddeallusol.

## Addysg teulu

Bydd cynnwys rhieni, teidiau a neiniau a brodyr a chwiorydd eraill yng ngweithgareddau'r clwb yn helpu i greu diwylliant o lythrennedd o fewn teuluoedd. Anogwch rieni i ddarllen y llyfrau mae eu plant yn eu darllen, ac yna i sgwrsio am y llyfrau gyda'i gilydd. Gofynnwch i'ch aelodau holi eu rhieni a'u neiniau a theidiau am y llyfrau roeddynt hwy yn eu darllen fel plant ac am y llyfrau mae nhw'n dewis eu darllen nawr. Anogwch pob aelod o bob teulu i ymaelodi â'r llyfrgell leol a'r rhieni i ddod yn fodelau rôl darllen i'w plant. Darganfyddwch ragor am y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol i oedolion yn eich ardal (mewn coleg, llyfrgell neu ganolfan addysg oedolion) a chyfeiriwch rieni sydd efallai ag anawsterau llythrennedd eu hunain. Gofynnwch i'ch llyfrgellydd lleol ddod â chasgliad o lyfrau sy'n addas i ddarllenwyr llai hyderus i ddangos i rieni.

Mae rhaglen lwyddiannus Share, i ysgolion ac AALl, yn annog rhieni i gefnogi a bod yn rhan o ddysgu eu plant. Am ragor o fanylion ewch i www.continyou.org.uk neu ffoniwch 024 7658 8440.



Hawlfraint © ContinYou 2006

# Meysydd y cwricwlwm

## Llythrennedd

Bydd holl raglen y clwb darllen, wrth gwrs, yn cyfrannu'n fawr tuag at waith llythrennedd eich ysgol – darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando. Gwnewch ddefnydd o adnoddau mwyaf gwerthfawr y clwb – yr aelodau a'r llyfrau – i ysgogi disgyblion eraill i ddarllen ac i weld darllen fel diddordeb bositif a phleserus, ac i greu diwylliant darllen o fewn yr ysgol.

Cyfunwch ddarllen gydag ysgrifennu creadigol – gwahoddwch awdur i gynnal gweithdy ysgrifennu, crewch eich straeon a cherddi eich hunain a chynhyrchwch nhw fel llyfrau i eraill eu mwynhau. Neu cyfunwch ddarllen gyda drama – trwy annog yr aelodau i greu ymgomiau yn seiliedig ar lyfrau, i ddramateiddio golygfeydd o nofelau, ac i gymrwch rhan mewn cystadlaethau llyfrau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n cynnwys perfformio cyflwyniadau dramatig.

Mae nifer o awdurdodau Cymru yn rhedeg Sgwadiau Sgwennu (gyda chefnogaeth Academi) ar gyfer sgwennwyr ifanc talentog, sydd fel arfer hefyd yn ddarllenwyr brwd. Efallai bod rhai o'ch aelodau hefyd yn aelodau o Sgwad. Gofynnwch iddynt sôn wrth yr aelodau eraill am eu gweithdai Sgwad ac i rannu eu gwaith ysgrifennu. Gallai'r clwb hefyd ddarllen llyfrau'r awdur sy'n tiwtora'r Sgwad.

## Cymraeg fel ail iaith

Trefnwch sesiwn yn edrych ar amrywiaeth o lyfrau a chylchgronnau Cymraeg – rhai ar gyfer dysgwyr ac iaith gyntaf. Allai llyfrgellydd neu aelod o Fenter Iaith leol ddod i mewn i siarad am y llyfrau? Dangoswch i'ch aelodau fod llyfrau deniadol ar gael i'w mwynhau y tu allan i'r dosbarth. Siaradwch am sut mae cloriau llyfrau Cymraeg wedi eu dylunio i ddenu darllenwyr. Edrychwch ar wefannau llyfrau Cymraeg neu ebostiwch awduron.

## Hanes a daearyddiaeth

Treuliwch rai sesiynnau yn canolbwyntio ar lyfrau wedi eu gosod mewn cyfnod hanesyddol penodol neu wlad dramor. Fel gweithgaredd mwy heriol ar gyfer darllenwyr hŷn neu mwy galluog, darllenwch lyfrau a ysgrifennwyd yn y gorffennol neu lyfrau wedi eu cyfieithu.

## Ieithoedd tramor

Ceisiwch gael gafael ar gomics, llyfrau lluniau a llyfrau syml mewn iaith arall a threuliwch sesiwn yn eu darllen a'u rhannu. Gwahoddwch gydweithwyr sy'n dysgu ieithoedd i gymryd rhan yn y sesiwn. Allai'r aelodau greu posteri mewn ieithoedd eraill, neu hyd yn oed sylwadau darllenwyr syml?

## TGCh

Datblygwch sgiliau TGCh yr aelodau gyda gweithgareddau chwilio ar y we i edrych ar wefannau llyfrau ac awduron. Crewch adran i'r clwb ar wefan yr ysgol, neu gyfrannwch eitemau i wefan yr AALl neu'r gwasanaeth llyfrgell. Gofynnwch i'r aelodau ddefnyddio meddalwedd addas i greu posteri a deunydd cyhoeddusrwydd i'r clwb. Danfonwch sylwadau darllenwyr a defnyddiwch sgwrsio arlein i gysgodi gwobrau llyfrau.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Mae modd edrych ar faterion fel bwlio, pwysedd cyfoedion, gwahanu teuluol, rhywioldeb a cham ddefnyddio cyffuriau trwy ddarllen llyfrau ar yr un themau. Beth am gynnal sesiwn gynghori ffug ar gyfer cymeriad sy'n wynebu problem, neu drefnu dadl gan edrych ar fater o safbwynt gwahanol gymeriadau? Dewch â chydweithiwr sydd ag arbenigedd yn y maes i mewn i gefnogi'r gweithgaredd.

Edrychwch ar sut mae gwahanol lyfrau yn delio â materion fel ffoaduriaid, rhyfel, torcyfraith neu anabledd. Sut wnaeth eich darllenwyr ifanc ymateb i'r cymeriadau a'u sefyllfaoedd? Sut mae darllen ffuglen am bwnc yn wahanol i ddarllen llyfrau ffeithiol neu chwilio ar y rhyngrwyd?

# Cysylltiadau defnyddiol

## Schools ETC

Cylchgrawn newydd ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn a gyda ysgolion i greu gwasanaethau mwy cydlynol ar gyfer plant a theuluoedd neu i gefnogi dysgu y tu hwnt i'r dosbarth yw *Schools ETC* (extending to communities).

Bydd y cylchgrawn hwn yn rhannu ymarfer da a chyngor ymarferol ar sut i wella canlyniadau trwy wasanaethau cymunedol/estynedig. Wrth i ysgolion ddarganfod ffyrdd newydd o ddarparu saith amcan craidd 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (LICC 2005), bydd *Schools ETC* yn gyfrwng i ddarllenwyr rannu llwyddiant, leisio anghytundeb a phryderon, adrodd eu straeon a helpu i ysbrydoli eraill.

Bydd yn cynnwys:

- cefnogi rhieni a dysgu teuluol
- gweithgareddau dysgu allan-o-oriau-ysgol/cefnogi astudio
- partneriaethau ar gyfer gofal plant ar ac oddi ar y safle
- cysylltiadau agosaf gyda gwasanaethau cefnogol arbenigol, fel iechyd a gofal cymdeithasol, gyda enghreifftiau ymarferol o sut mae ysgolion yn creu y cysylltiadau hyn
- mynediad cymunedol i TGCh, cyfleusterau chwaraeon a chelfyddydol, ac addysg oedolion.

Bydd y tanysgrifiad isel ei bris yn cynnig:

- cylchgrawn chwarterol llawn lliw
- taflenni cyngor ymarferol (ar faterion fel ail-drefnu'r diwrnod ysgol, targedu er mwyn cynnwys, llais pobl ifanc, archwilio a gwerthuso darpariaeth cymunedol, partneriaethau effeithiol, rhaglenni ysgol gyfan, ac yn y blaen)
- aelodaeth rhad ac am ddim (ymysg cynigion eraill) o Book-it! (rhwydwaith clybiau darllen ContinYou)
- mynediad arbennig i wobr tanysgrifwyr
- gostyngiadau ar ddigwyddiadau a chynadleddau ContinYou
- e-lythyr ar gyfer ysgolion bro
- gwahoddiadau i ddigwyddiadau rhwydweithio rhanbarthol.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan ContinYou www.continyou.org.uk. Mae gostyngiad ychwanegol i AALl sy'n cymryd aelodaeth bloc yn 2006.

## Llyfrau a darllen: gwybodaeth a chefnogaeth

**Rhaglen Book-it! ContinYou**
www.readingclub.org.uk
Adnodd arlein am ddim gan ContinYou ar gyfer pawb sy'n tanysgrifio i *Schools ETC*. Mae ffi bychan i eraill sydd eisiau ymuno. Mae Book-it! yn cynnig gwefan gydag ystod o adnoddau i gefnogi darllen er mwyn pleser, ac e-lythyr rheolaidd. Ar y wefan fe gewch:

- ystod o arfau ymarferol i helpu gyda chynnal clwb darllen – enghreifftiau o weithgareddau a thaflenni gweithgaredd, teclynnau gwerthuso, dolenni i adnoddau am ddim
- adolygiadau llyfrau
- cyngor ar sut a ble i chwilio am arian ar gyfer clybiau darllen
- gostyngiadau gan gyhoeddwyr
- enghreifftiau o glybiau a gweithgareddau poblogaidd
- gwybodaeth am hyfforddiant a chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynnol
- copïau o e-lythyrau ac ôl-rifynnau.

I gymryd mantais o adnodd Book-it!, dylai tanysgrifiwyr i *Schools ETC* ebostio subscriptions@continyou.org.uk neu ffonio 020 8709 9904 i ofyn am gyfrinair arlein.

**Cyngor Llyfrau Cymru**
www.cllc.org.uk
Ffôn: 01970 624151
Mae'r Cyngor yn cefnogi'r fasnach lyfrau a chyhoeddi yng Nghymru. Mae'r adran llyfrau plant yn cynnal prosiectau a gweithgareddau dros Gymru megis cystadlaethau llyfrau cenedlaethol, pecynnau gwybodaeth tymhorol i bob ysgol, ymweliadau fan arddangos llyfrau a chlybiau prynu llyfrau Sbondonics a Sbri-di-ri. Y Cyngor sy'n cydlynu Diwrnod Llyfr y Byd yng Nghymru a gwobr Tir na n'Og am lyfrau plant Cymreig. Mae taflenni gwybodaeth am awduron plant o Gymru yn yr adran Plant Arlein ar y wefan.

**National Literacy Trust**
www.literacytrust.org.uk
Elusen annibynnol sydd wedi ymrwymo i adeiladu cenedl llythrennog ac i godi safonau llythrennedd ar gyfer pob oedran ym Mhrydain. Mae'r ymddiriedolaeth yn rhedeg mentrau pwysig fel y National Reading Campaign, Reading Connects, Reading Champions, a Reading the Game.


Hawlfraint © ContinYou 2006

**National Reading Campaign**
www.readon.org.uk
Yn anelu at sicrhau fod cynifer o bobl â phosib yn mwynhau'r pleser a'r manteision o ddarllen. Y National Literacy Trust sy'n cynnal yr ymgyrch, ac mae'n canolbwyntio ar ddau fenter: Reading Connects a Reading Champions.

**Reading Connects**
www.readingconnects.org.uk
Menter dan nawdd Adran Addysg llywodraeth Prydain sy'n cefnogi ysgolion i adeiladu eu diwylliant darllen eu hunain. Mae Reading Connects yn cynnig adnoddau defnyddiol iawn, syniadau sydd wedi eu profi, enghreifftiau byw, cyngor a gwybodaeth am arian. Mae'r canllawiau *Creating a reading culture handbook* ar gael i'w lawrlwytho.

**Reading Champions**
www.literacytrust.org.uk/campaign/Champions/index.html
Mae Reading Champions yn cymryd mantais o rym modelau rôl i ysgogi dynion a bechgyn eraill i ddarllen. Daw'r 'champions' o fyd chwaraeon a theledu yn ogystal ag ysgolion a'r gymuned.

**Book Trust**
www.booktrusted.com
Safle i helpu athrawon, llyfrgellwyr a rhieni ddod o hyd i wybodaeth am lyfrau i blant a phobl ifanc. Mae'n cynnig newyddion a gwybodaeth, a mynediad i fanylion cyswllt awduron.

**The Reading Agency**
www.readingagency.org.uk
Elusen sy'n gweithio i wella'r profiad darllen trwy ysbrydoli, herio a chefnogi llyfrgelloedd. Mae'n cynnal y rhwydwaith o grwpiau darllen i blant mewn llyfrgelloedd lleol, Chatterbooks, ac yn cydlynu'r Sialens Ddarllen Genedlaethol.

**Federation of Children's Book Groups**
www.btinternet.com/~martin.kromer/index.htm
Ffôn: 0113 258 8910
Mudiad gwirfoddol cenedlaethol sy'n hyrwyddo diddordeb mewn llyfrau plant a darllen. Mae'n cydweithio ag ysgolion, cylchoedd chwarae, llyfrgelloedd a chyhoeddwyr. Mae'n gweithredu fel dolen gyswllt rhwng grwpiau llyfrau plant dros Brydain, yn trefnu Gwobr Llyfrau Plant Red House, yn hyrwyddo Mis Rhannu Stori (Mai) ac yn cynnal cynhadledd genedlaethol. Mae'n cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i grwpiau.

**National Centre for Language and Literacy**
www.ncll.reading.ac.uk
Mae'r Ganolfan yn cynnig llais annibynnol, yn ymateb yn hyblyg i anghenion athrawon, ac mae'n cefnogi athrawon, rhieni a llywodraethwyr trwy gasgliad o adnoddau, cyhoeddiadau, cyrsiau a chynadleddau, ac ymchwil. Mae gan y wefan fasddata chwiliadwy o awduron sy'n barod i ymweld ag ysgolion.

**School Library Association**
www.sla.org.uk
Mae'r gymdeithas yn cefnogi datblygiad llyfrgelloedd ysgol ar draws Prydain.

**CILIP**
www.cilip.org.uk
Corff proffesiynol llyfrgellwyr, sy'n gweinyddu gwobrau blynyddol Medal Carnegie a Gwobr Kate Greenaway am lyfrau plant.

**Bookmark: books and disability issues**
www.bookmark.org.uk
Mae Bookmark yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chyfeirio ynglŷn ag anawsterau darllen, anawsterau dysgu a llyfrau sy'n berthnasol i wahanol fathau o anabledd. Mae dan adain Booktrust.

**National Library for the Blind**
www.nlb-online.org
Mynediad i'r holl wasanaethau ar gyfer darllenwyr sydd â nam ar y golwg. Mae cynlluniau i uno cyn hir gyda'r Royal National Institute for the Blind (RNIB) i gynnig un llyfrgell Braille a sain genedlaethol.

**Fiction Cafe**
www.fiction-cafe.nlb-online.org
Gwefan ddarllen arbennig yr NLB ar gyfer pobl ifanc â nam ar y golwg.

**Royal National Institute for the Blind**
www.rnib.org.uk
Yn cynnig manylion am y gwasanaeth tanysgrifiad Talking Books, sy'n cynnwys llyfrau plant, canllawiau ymarfer da ar greu adnoddau hygyrch ac adran ar Gymru gyda manylion cyswllt ar gyfer adnoddau Cymraeg.

**Clearvision**
www.clearvisionproject.org
Llyfrgell trwy'r post yw hwn sy'n cynnig llyfrau plant arferol gyda Braille wedi ei ychwanegu, sy'n wych i'w rhannu gyda ffrindiau a theulu. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim i deuluoedd ac mae cost tanysgrifio bychan i ysgolion a llyfrgelloedd.

**Speaking of Books**
Jan Powling, Speaking of Books, 9 Guildford Grove, Greenwich, London SE10 8YJ
Ffôn/Ffacs: 020 692 4704
Dyma asiantaeth sy'n cynnig mynediad i awduron, arlunwyr a storiwyr i weithio mewn ysgolion.

## Syniadau am weithgareddau

**Cysgodi Carnegie Greenaway**
www.carnegiegreenaway.org.uk
Y wefan ar gyfer y gwobrau llyfrau plant uchaf eu parch ym Mhrydain. Manylion am restri hirion a byrion, ac adran rhyngweithiol er mwyn i ddarllenwyr ifanc bostio adolygiadau a sylwadau ar y llyfrau.

**Cool reads**
www.cool-reads.co.uk
Gwefan adolygu llyfrau gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Digon o awgrymiadau yma am lyfrau i'w darllen ac enghreifftiau da o ysgrifennu am lyfrau.

**Blue Peter Book Club**
www.bbc.co.uk/cbbc/bluepeter/bookclub
Newyddion, cynigion arbennig, adolygiadau a straeon y sêr, gyda manylion am wobrau llyfrau Blue Peter.

**Reading the Game**
www.readingthegame.org.uk
Menter y National Literacy Trust sy'n gweithio gyda phêldroed proffesiynol i hyrwyddo llythrennedd ac i godi'r awydd i ddarllen ymysg pob oed – syniadau da am ddefnyddio poblogrwydd pêldroed er mwyn hyrwyddo darllen.

**Reading Is Fundamental UK (RIF)**
www.rif.org.uk
Yn ogystal ag ariannu prosiectau, mae gan wefan RIF wybodaeth ddefnyddiol a thaflenni gweithgaredd i'w lawrlwytho o'r adran adnoddau.

**Readathon**
www.readathon.org
Cynllun darllen noddedig, a ddenfyddir gan ysgolion yn aml yn ystod Wythnos Lyfrau Plant, er mae'n gweithredu trwy'r flwyddyn. Mae plant yn ymrwymo i ddarllen llyfrau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau llythrennedd eraill o'u dewis er mwyn cael addewidion am arian gan deulu a ffrindiau. Mae'r holl arian a gesglir yn cael ei roi i Ymddiriedolaeth Roald Dahl a Chronfa Gancr Sargent ar gyfer plant.

**My Home Library**
www.myhomelibrary.org
Gwefan yr awdur Anne Fine sy'n annog plant i adeiladu eu llyfrgelloedd cartref eu hunain. Labeli llyfrau wedi eu dylunio gan brif arlunwyr ar gael i'w lawrlwytho am ddim, a syniadau ar sut i gael gafael ar lyfrau (yn arbennig o siopau elusennol).

**Seven Stories: the centre for children's books**
www.sevenstories.org.uk
Ffôn: 0845 271 0777
Y ganolfan newydd yn Newcastle upon Tyne, sy'n casglu gwaith celf a llawysgrifau gwreiddiol gan awduron a darlunwyr i blant ym Mhrydain. Mae'r ganolfan yn cynnal arddangosfeydd a rhaglenni addysgol.

**Stories from the web**
www.storiesfromtheweb.org
Gwefan stori ryngweithiol gydag adrannau ar gyfer plant dan 8, 8 i 11 ac 11+, gyda gweithgareddau a gemau, gwybodaeth am lyfrau ac awduron, a chyfleoedd i ddanfon sgwennu creadigol.

**Achuka**
www.achuka.co.uk/index2.html
Gwefan annibynnol o newyddion ac adolygiadau o lyfrau ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Awduron

Mae gan lawer o awduron ac arlunwyr plant eu gwefannau eu hunain, neu dudalennau ar wefan eu cyhoeddwyr. Teipiwch eu henwau i mewn i injan chwilio ac fe ddowch o hyd i wybodaeth am lyfrau'r awduron, hanes eu bywydau, ac yn aml gemau a gweithgareddau. Mae llawer o awduron hefyd yn gwahodd darllenwyr i ymateb i'w llyfrau neu i ddanfon cwestiynnau. Bydd y rhan fwyaf o wefannau hefyd yn egluro sut i gysylltu â'r awduron i drefnu ymweliadau ysgol.

Mae www.ukchildrensbooks.co.uk yn rhestru dros 200 o wefannau awduron Saesneg eu hiaith.

Mae gan www.ncll.reading.ac.uk hefyd fasdata chwiliadwy o awduron ac arlunwyr sy'n barod i ymweld ag ysgolion.

Mae gan wefan Cyngor Llyfrau Cymru www.cllc.org.uk daflenni gwybodaeth am awduron plant o Gymru i'w lawrlwytho ac mae gwefan Academi www.academi.org yn rhoi manylion cyswllt awduron o Gymru.


Hawlfraint © ContinYou 2006

## Ariannu

**ContinYou**
www.continyou.org.uk
Mae'r canllawiau, *Fundraising guidance for study support/out-of-school-hours learning*, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005, ar gael i'w lawrlwytho, ac yn cynnwys cyngor ar bopeth o gynllunio eich gweithgareddau i nawdd corfforaethol, codi arian gan ymddiriedolaethau yn ogystal â chysylltiadau defnyddiol.

**Y Gronfa Loteri Fawr**
www.cronfaloterifawr.org.uk
Swyddfa Cymru Ffôn: 01686 611700
Mae dwy raglen Cronfa Loteri Fawr sy'n benodol i Gymru. Mae Pawb a'i Le yn amcanu i ddod â phobl at ei gilydd i gryfhau eu cymunedau; mae'n agored i grwpiau cymunedol, a sefydliadau gwirfoddol a'r sector gyhoeddus, gan roi grantiau rhwng £5,000 a £1miliwn. Mae Cronfa Pobl Ifanc Cymru yn canolbwyntio ar bobl ifanc 10–19 oed; mae ei ffrwd Dyma dy gyfle yn ariannu prosiectau a gynlluniwyd gan bobl ifanc ac yn rhoi grantiau rhwng £500 a £5,000.

**Awards for All**
www.awardsforall.org.uk/cymraeg/wales/
Ffôn: 0845 600 2040
Cynllun grantiau i helpu grwpiau bychain ac i gryfhau cymunedau, a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr, a Chronfa Treftadaeth y Loteri. Grantiau rhwng £500 a £5,000.

**Roald Dahl Foundation**
www.roalddahlfoundation.org
Yn cefnogi prosiectau llythrennedd gyda grantiau ar gyfer prosiectau allan-o-oriau-ysgol. Mae'n croesawu ceisiadau gan elusennau ar draws Prydain i weithio gyda phlant sydd â sgiliau llythrennedd gwael, ac i gynorthwyo pobl ifanc gyda nam ar y golwg neu anafiadau i'r pen i gael mynediad i'r gair ysgrifenedig. Mae'n werth ei ystyried os yw eich Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn elusen gofrestredig.

**Academi**
www.academi.org
Ffôn: 029 2047 2266
Dyma asiantaeth hyrwyddo llenyddiaeth Cymru. Mae'r cynllun Awduron ar Daith yn rhan-ariannu ymweliadau gan awduron, beirdd a storiwyr. Gwnewch gais trwy gysylltu ag Academi o leiaf fis cyn y digwyddiad. Gall hefyd gefnogi prosiectau llenyddol ar raddfa fwy. Mae'r wefan yn rhestru manylion cyswllt ar gyfer awduron a storiwyr yng Nghymru.

**Paul Hamlyn Foundation**
www.phf.org.uk
Mae'n cefnogi mentrau celfyddydol ac addysgol ar gyfer pobl ifanc o fewn a thu allan i'r ysgol, yn arbennig os ydynt yn torri tir newydd neu'n fentrus. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys gwella mynediad i lyfrau a darllen. Rhoddir grantiau hyd at £5,000 i gynlluniau lleol am flwyddyn.

**Reading Is Fundamental UK (RIF)**
www.rif.org.uk
Ffôn: 020 7828 2435
Menter gan y National Literacy Trust i helpu plant i gyrraedd eu potensial trwy eu cyflyrru i ddarllen. Mae prosiectau RIF yn cynnig gweithgareddau a llyfrau am ddim i blant eu dewis a'u cadw. Gall unrhyw grŵp di-elw wneud cais i gychwyn prosiect RIF ac fe roddir blaenoriaeth i rai sydd wedi llwyddo i godi peth arian yn barod.

**Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm**
www.millenniumstadium.com/3473_3540.php
Ffôn: 029 2049 4963
Mae'r ymddiriedolaeth yn codi ei arian trwy dreth ar bob tocyn a werthir ar gyfer digwyddiadau yn y stadiwm. Ei amcan yw cefnogi addysg, hanes, iaith, diwylliant, cerddoriaeth a llên gwerin, yn arbennig ar gyfer rhai sy'n wynebu anffafriaeth neu anfantais. Mae'n rhoi grantiau i sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw ac elusennau – hyd at £2,000 i brosiectau lleol. Mae modd lawrlwytho canllawiau llawn o'r wefan.

## Cylchgronnau am lyfrau plant

***Books for Keeps***
Cylchgrawn deufisol ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr. Adolygiadau, newyddion, erthyglau a gwybodaeth am awduron. Cyswllt: 6 Brightfield Road, Lee, London SE12 8QF Ffôn: 020 8852 4953 www.booksforkeeps.co.uk ebost: booksforkeeps@btinternet.com

***Carousel***
Cylchgrawn tymhorol ar gyfer rhieni ac athrawon. Erthyglau byrion, adolygiadau a newyddion. Cyswllt: Carousel, The Saturn Centre, 54-76 Bissell Street, Birmingham B5 7HX Ffôn: 0121 622 7458 www.carouselguide.co.uk

***TbK***
Cylchgrawn lliwgar ar gyfer plant 7 i 12 oed gyda phytiau o lyfrau newydd, gwybodaeth am awduron, gweithgareddau a chystadlaethau. Cyswllt: Peters Library Service, 120 Bromsgrove Street, Birmingham B5 6RL Ffôn: 0121 666 6646 www.peters-books.co.uk

***Bawd***
Cylchgrawn Cymraeg blynyddol am lyfrau ar gyfer CA3 wedi ei ysgrifennu gan bobl ifanc, gyda erthyglau, newyddion ac adolygiadau. Cyhoeddir gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Cyswllt: Nia Gruffydd Ffôn: 01286 679465 NiaGruffydd@gwynedd.gov.uk

***BOOX***
Cylchgrawn lyfrau i'r arddegau gan arddegwyr. www.boox.org.uk. Cyswllt: The Reading Agency www.readingagency.org.uk

***Teen Titles***
Cylchgrawn adolygu llyfrau tymhorol ar gyfer arddegwyr. Cyswllt: Jackie Henrie, Publications Manager, City of Edinburgh Council Education Dept, 10 Waterloo Place, Edinburgh EH1 3EG Ffôn: 0131 469 3331 jackie.henrie@educ.edin.gov.uk

## Llyfryddiaeth


*Creating a reading culture handbook*
Cyhoeddwyd gan Reading Connects/DFES. Lawrlwythwch o www.readingconnects.org.uk

*Reading clubs report*
Cyhoeddwyd gan Education Extra, 2003. Lawrlwythwch o www.continyou.org.uk

*Rhannu'r Wefr: canllawiau ar gyfer grwpiau darllen*
Gan Bethan M Hughes a chyhoeddwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn 2005. Mae copïau ar gael mewn llyfrgelloedd lleol yng Nghymru neu lawrlwythwch o www.cllc.org.uk.

*Reading for change*
Adroddiad ar ymchwil gan yr Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD), cyhoeddwyd yn 2001. Lawrlwythwch o www1.oecd.org/publications/e-book/9602071E.pdf

Hawlfraint © ContinYou 2006

## Dyma sut aethom ni ati…

Y sesiynnau gorau yw'r rhai lle mae'r darllenwyr yn bwrw iddi'n syth i drafod llyfrau – yn aml heb eu cynllunio ac yn cael eu sbarduno gan ryw sylw gan un ohonom. Rydym yn anffurfiol iawn – dwi ddim yn gwneud llawer o gynllunio manwl (yn wahanol iawn i'm cynllun gwersi!) oherwydd dwi eisiau cadw'r clwb yn hyblyg fel ei fod o'n ymateb i frwdfrydedd ac angerdd yr aelodau. Mae gennym aelodau o Flwyddyn 7 i'r Chweched ac o leiaf 20 o bobl ym mhob seiswn awr ginio wythnosol. Rydym yn cyfarfod yn llyfrgell yr ysgol ac mae 3 aelod o staff yno fel arfer – athrawes Gymraeg a dwy Saesneg. Fe fyddai'n well gen i ei gynnal fel clwb ar-ôl-ysgol fel bod llai o bwysau amser arnom a llai o gystadleuaeth o weithgareddau eraill, ond mae hon yn ardal wledig ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael bws adref.

Rydym yn defnyddio'r bwletin dyddiol ac yn rhoi'r gair ar led i hyrwyddo'r clwb – aeth yr aelodau o amgylch y dosbarthiadau cofrestru i ddweud wrth bawb am y clwb – ac yn creu posteri a'u gosod o gwmpas yr ysgol ar gyfer digwyddiadau arbennig. Rhai o'n sesiynnau gorau yw pan mae pawb wedi darllen yr un llyfr neu pan fyddwn yn treulio'r awr ginio gyfan yn darllen yn dawel – mae'r aelodau wrth eu bodd gyda'r cyfle i ymlacio. Mae cwisiau yn boblogaidd iawn – dwi'n cael y rhan fwyaf oddi ar y we. Byddwn yn llogi'r stafell TGCh weithio er mwyn i bawb gymryd rhan. Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda chystadlu mewn cwisiau llyfrau cenedlaethol – mae pawb yn helpu i baratoi'r tîm trwy ofyn cwestiynnau iddynt a'u holi'n dwll! Rydym wedi bod ar deithiau i'r sinema i weld ffilmiau o lyfrau – ac rydym wastad yn cael sesiwn fywiog yr wythnos ganlynol yn trafod pa un oedd orau – y llyfr yntau'r ffilm.

Rydym wedi cynnal ffeiriau llyfrau ail-law i godi arian ar gyfer Book-Aid a chronfa'r clwb, ac rydym yn cysgodi Medal Carnegie bob blwyddyn ac yn cael dadleuon a thrafodaethau gwych – tydyn ni ddim wedi cytuno hefo'r dyfarniad swyddogol erioed! Mae siop lyfrau leol hefyd wedi bod yn danfon copïau proflen atom er mwyn i ni sgwennu adolygiadau i'w gosod yn y siop. Un haf fe wnaethon ni wahodd yr ysgolion cynradd lleol i ddanfon plant Blwyddyn 6 atom i dreulio pnawn gyda'r clwb fel cynllun trosglwyddo. Fe chwaraeon ni gemau llyfrau a chymryd y cyfle i hysbysebu'r clwb iddynt. Rydym yn cael cefnogaeth dda gan reolwyr yr ysgol a does dim gofyn i ni fonitro – mae'r ffaith fod y clwb yn bodoli ac yn llawn o aelodau yn ddigon o brawf o'i lwyddiant wrth gael pobl ifanc yn darllen ac yn mwynhau llyfrau.

### Cynghorion

- Peidiwch â cheisio ei wneud ar eich pen eich hun – mae dau neu dri oedolyn i helpu yn ddelfrydol.
- Peidiwch â bod yn rhy drefnus a ffurfiol – dilynwch arweiniad yr aelodau.
- Byddwch yn barod i ddarllen llawer o lyfrau er mwyn i chi fedru sgwrsio hefo'r aelodau – a pheidiwch byth â chogio eich bod wedi darllen rhwybeth – fe gewch eich dal allan!

*Athrawes Saesneg uwchradd*

## Dyma sut aethom ni ati…

Unwaith yr wythnos mae cadeiriau a byrddau'r llyfrgell yn cael eu gweithio i'r ochr ac fe deflir clustogau ar y llawr ar gyfer clwb darllen amser cinio Blwyddyn 7. Mae'r aelodau yn dod â'u cinio hefo nhw ac rydym yn cael sgwrs gymdeithasol wrth fwyta. Yna fe dreuliwn tua 30 munud yn sgwrsio am beth rydym wedi bod yn darllen ac yn canolbwyntio ar thema – straeon byrion ar hyn o bryd. Mae gennym gymysgedd dda o alluoedd, ac fe anogir pawb i fenthyg llyfr ar ddiwedd y sesiwn. Dwi weithiau yn gosod her iddynt am yr wythnos – i ddarllen llyfr na fydden nhw fel arfer yn ei ddarllen, neu i ddewis llyfr a argymhellwyd gan ddarllenydd arall. Dwi'n rhedeg y clwb yn gyfangwbl ar fy mhen fy hun heb gymorth athrawon – ond dwi'n ymdopi – i ddweud y gwir dwi wrth fy modd. Does gen i ddim arian i'w wario ar y clwb ond does dim angen dim arnom i ddweud y gwir – rydym yn defnyddio stoc llyfrgell yr ysgol neu dwi'n benthyg gan y Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion. Fy mwriad yw i weld yr aelodau yn mwynhau eu darllen, yn teimlo'n hyderus fel darllenwyr ac i'w gweld nhw'n lledu eu dewisiadau darllen – a dwi'n meddwl ein bod ni'n cyflawni hyn.

### Cynghorion

- Targedwch bobl ifanc fyddai'n mwynhau ac yn elwa o'r clwb.
- Trefnwch eich sesiynnau o flaen llaw.
- Penderfynwch ar eich amcanion.

*Cynorthwy-ydd llyfrgell ysgol uwchradd*

## Dyma sut aethom ni ati…

Mae pob llyfr yn antur, felly fe benderfynodd y bobl ifanc a ymunodd â'n grŵp darllen arddegwyr ni roi'r enw 'Y Grŵp Antur' arno. Mae nhw'n dod i'r llyfrgell bob mis i sgwrsio am lyfrau (ac i fwyta siocled!). Mae nhw'n sgwennu sylwadau am y llyfrau ar gyfrifiaduron y llyfrgell, ac yna yn eu dangos yn yr adran arddegau. Mae nhw'n rhoi sticeri ar lyfrau i'w hargymell, ac mae nhw wedi bod ar ymweliadau – roedd stiwdio leol y BBC yn uchafbwynt. Yn y parti Nadolig, fe ddaeth pob aelod â ffrind i'w cyflwyno nhw i'r llyfrgell ac i'r grŵp. Rydym yn gwerthu'r diodydd a'r siocled – mae'n well ganddyn nhw dalu ychydig o geiniogau yn hytrach na chael pethau am ddim fel plant bach!

### Cyngor

- Gall rhoi enw ar glwb darllen, fel Y Grŵp Antur, fod yn ddynfa gryf i gael darllenwyr ifanc i ymuno.

*Cynorthwy-ydd llyfrgell leol*

## Dyma sut aethom ni ati…

Un o'r pethau gorau am ein clwb Llyfrbryfed Bach yw fod y plant yn dod o dair ysgol leol wahanol felly mae nhw'n gwneud ffrindiau newydd o fewn eu cymuned. Mae un o'r ysgolion yn ysgol gyfrwng Gymraeg a gan fod y grŵp hwn yn darllen llyfrau Saesneg, mae rhieni yn gweld ei fod yn helpu gyda'u sgiliau darllen Saesneg. Mae'r aelodau i gyd rhwng 7 ac 11 oed ac rydym yn cyfarfod bob yn ail wythnos am awr ar ôl ysgol yn y llyfrgell leol. Byddwn yn treulio tua 4 sesiwn ar bob llyfr neu thema – yn darllen a thrafod y llyfrau hefo'n gilydd, yna'n gwneud cwisiau, cystadlaethau, ac gweithgareddau'n seiliedig ar y llyfrau. Mae pawb yn eistedd o amgylch bwrdd mawr ac rydym yn rhoi lluniaeth am ddim.

### Cyngor

- Gall ffurfio clwb gyda disgyblion o sawl ysgol helpu i greu sylfaen ehangach o adnoddau, gwirfoddolwyr a syniadau.

*Cynorthwy-ydd llyfrgell leol*



Hawlfraint © ContinYou 2006

# Cydnabyddiaethau

Hoffai ContinYou ddiolch i'r canlynol am eu cymorth gyda *Dyma'n ffordd ni*:

- Eileen Jones, AALl Sir Ddinbych
- Frances Jones, Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gogledd Ddwyrain Cymru
- Ros Harding, Ysgol Bryn Alyn, Gwersyllt
- Sarah Barker, Ysgol Dinas Brân, Llangollen
- Julie Danson, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun
- Llinos Hughes a Sue Tame, Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
- Edwina Crump, Ysgol Parch Thomas Ellis, Caergybi
- Nia Gruffydd, Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd
- Alison Shepherd, Llyfrgell Cefn Mawr
- Beverley Owen, Llyfrgell Prestatyn.

Ymddangosodd rhai o'r syniadau ar gyfer gweithgareddau am y tro cyntaf yn T*he reading group toolbox* gan Rachel Van Riel ac Olive Fowler (Opening the Book, 1999); a *Sharing the buzz: guidelines for reading groups* gan Bethan M Hughes (Cyngor Llyfrau Cymraeg, 2005).

Ysgrifennwyd gan Bethan M Hughes

Golygu: Paddy O'Dea, ContinYou

Cyfieithiad Cymraeg: Alwyn Selway

Argraffu swyddfa: Christine Knight, ContinYou

Dylunio a gosodiad: Paul Mepham, ContinYou

Cynghorwyr: Pam Boyd a Brian Hubble, ContinYou